

ECO'R WYDDFA

RHIF 278

MAI 2001

PRIS 40c



Plant bach yr Ysgol Feithrin Waunfawr yn eu gwisg "ffansi" yn dathlu diwrnod 'Y Trwynnau Coch!' ar Fawrth 16 eleni.

Gweler yr hanes yn newyddion Waunfawr

Hen Stejars – Diolch Amdanynt



Pum munud i'r dyfarnwr yng nghwmni rhai o hen stejars Deiniolen

Crwydro i Ddeiniolen wnes i bnawn Sadwrn i weld y tîm cartref yn herio Pwllheli, arweinwyr Cynghair Gwynedd. Siomedig oedd y dorf, o gofio dyddiau bri Deiniolen yn ystod y tymhorau diwethaf, ond mae rhai pethau yn aros. Paned a chŵn poeth, a nionod gorau'r Gynghrair. Eio a Dei John wrth yddfau'i gilydd ond yn daer dros y tîm a'r pentref, ac yn rhoi cryn her ac arweiniad i'r hogiau ifanc o'u cwrpas. Ac yn y 'grandstand' ar y seddau symudol, Alun Wyn a Donald.

'Dos i nôl cadair,' meddai Alun Wyn. 'Lloc y Wasg i Eco'r Wyddfa.' Ie, da ydy'r ffyddloniaid, neu'r gwreiddiau fel yr hoffaf eu galw yn ein clybiau.

I'r llu o'r cyhoedd, edrych ar y blodau crand (y tlysau) yw eu mesur o lwyddiant, ond ni ddaw hyn heb y gwreiddiau: dyn trin y cae, dyn wrth y giât, merched y baned a'r bwyd, y gwerthwyr raffls.

1-1 oedd canlyniad y gêm, gyda Deiniolen yn brwydro'n galed. Gyda thipyn mwy o bwyll o flaen gôl a rhywun i gyfarfod tafladau hir Deiniolen, buasai triphwynt ar gael. Rhaid oedd bodloni ar gôl wych Marc Williams o Fethel i gipio'r pwynt.

Yn rheoli'r cwbwl gyda'i wallt gwyn fel Tom Nefyn roedd Hugh Davies o Fethel. Dyma



Arfon Phillips ar ei dractor ar faes Ffordd Padarn, Llanberis

un a roddodd flynyddoedd o wasanaeth yn dyfarnu ledled y gogledd, ac yn dal i droi allan yn rheoliadd. Yn sicr, mae'r iaith wedi gwaethygu dros y blynyddoedd a chafwyd ambell ebychiad di-angen yn y gêm hon fel pob gêm arall erbyn heddiw.

Gyda llaw, pam mae camerau teledu yn dal i roi sylw i chwaraewyr yn dadlau pan mae'n hollol amlwg y fath regfeydd sy'n dod o'u cegau. Gwers dda i'r gwylwyr ieuanc yn sicr. Ond dim problem i Hugh. Wedi wynebu Tarw, Orig a rhai cyffelyb dros y blynyddoedd nid oedd am gael trafferth ar y Bwthyn.

Mae gennym le i ddiolch i'r llu o'r hen stejars yma am eu gwasanaeth di-ddiolch yn aml. Gobeithio fod y llun o Ddeiniolen ac o Arfon Phillips ar ei dractor ar faes Ffordd Padarn yn un ffordd o ddweud diolch iddynt. Dyrys yw meddwl yn aml o ble mae arweinwyr y dyfodol am ddod, yn bwyllgor i dimau, yn gynghorwyr plwyf, yn flaenoriaid ac yn arweinwyr cymdeithasol ein pentrefi.

Neuadd Goffa Bethel i Gau?

Roedd y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yn Ffestri'r Cysegr yn ddiweddar yn adlewyrchiad teg o broblemau'r Neuadd. Er yn gyfarfod cyhoeddus dim ond chwech oedd yn bresennol a hynny'n dangos efallai nad oes gan drwch y pentrefwyr lawer o ddiddordeb yn y Neuadd erbyn hyn.

Cafwyd adroddiadau digon tywyll, yn arbennig yr adroddiad ar y Clwb 200 sydd, i bob pwrpas, yn talu am redeg y Neuadd, gyda nifer o'r casglwyr wedi rhoi'r gorau iddi a neb i gymryd eu lle. Os na ellir rhoi y Clwb 200 ar sylfaen cadarn mae perygl gwirioneddol y bydd yn rhaid i'r Neuadd gau.

O gofio am yr holl fudiadau a chymdeithasau sy'n defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd neu yn achlysurol a'r effaith fyddai cau'r Neuadd yn ei gael ar fywyd cymdeithasol yr ardal, penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyhoeddus arall yn y Neuadd nos Fawrth, 8 Mai am 7 o'r gloch. Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yn y Neuadd, ac yn arbennig gynrychiolwyr mudiadau a chymdeithasau sy'n ei defnyddio, i'r cyfarfod i ddangos eu cefnogaeth i'r Neuadd ac i sicrhau na fydd yn rhaid cau'r drysau.

Co-op Llanrug yn Cau?

Mae posibilrwydd cryf y bydd Siop y Co-op yn Llanrug yn cau yn y dyfodol agos. Anfonwyd llythyr at yr holl aelodau i'w hysbysu o gyfarfod arbennig nos Lun nesaf, Ebrill 30, ble bydd cynnig gerbron bod y siop yn cau a bod dyfodol y gymdeithas yn cael ei ystyried. Mae'r siop wedi gwneud colled ariannol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 278
MAI**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 21

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 31

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Mehefin Gorffennaf Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Mai 21 Mehefin 18 Awst 27 Medi 17 Hydref 22 Tachwedd 19	Mai 31 Mehefin 28 Medi 6 Medi 27 Tachwedd 1 Tachwedd 29	Brynrefail Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Mr Myrddin Jones Mr Geraint Elis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

**Peidiwch gori
ar stori
Anfonwch hi i'r
Eco.**

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043
neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwdd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol


CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

Arddangosfa Llwyddiannus

Cyfeiriwyd yn y rhifyn diwethaf at arddangosfa o waith celf gan ddisgyblion Ysgol Brynrefail i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol. Yn ôl pob sôn bu'r arddangosfa yn hynod o lwyddiannus. Dyma rai lluniau pellach o'r paratodau a fu, gan longyfarch y disgyblion a'r staff ar eu llwyddiant.



**EMYR
JONES**

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

John Owen Huws



Brawychwyd ardal y Waunfawr fel llawer ardal arall yng Nghymru pan ddaeth y newydd trist am farwolaeth John Owen Huws ger ei gartref yng Nghaerdydd ac yntau ond yn 49 oed.

Un o hogiau Waunfawr oedd John ac yn falch o gydnabod hynny ar bob achlysur. Yn gyn-ddisgybl o'r ysgol gynradd leol ac Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon, cafodd yrfa academaidd ddisglair a'i gyfraniadau toreithiog i wahanol agweddau o Llen Gwerin ein gwlad wedi eu cydnabod fel cyfraniadau o sylwedd oedd yn dangos olion gwaith ymchwil trwyadl a safonol. Graddiodd ym Mhrifysgol Cymru Bangor ac ennill gradd M.A. am waith ymchwil i 'Straeon Gwerin Ardal Eryri'.

Roedd John yn arian byw, yn gyson hogi min ei feddwl chwim, yn darparu, trefnu, trafod, awgrymu a datblygu. Deuthum i'w adnabod pan oedd yn llencyn ifanc yn arfer galw yng nghartref fy mhriod yn y Garreg Fawr, Waunfawr. Bryd hynny fe ddioddefai yn fawr o'r asthma a hynny, ar brydiau, yn ei lyfetheirio'n arw. Ond yn nhreigladd y blynyddoedd fe lwyddodd i ryw raddau i'w oresgyn fel y gallai ddod i loncian gyda mi ar lwybrau Betws Garmon.

Pan yn ymweld â fferm y Garreg Fawr cymerai ddiddordeb mawr, ac yntau ond

ifanc, yn hanes yr hen dŷ gwair a phwy a feddyliodd bryd hynny y byddai, yn nhreigladd y blynyddoedd, yn dod i gyfathrach agos a chysn â'r adeilad hwnnw wedi ei symud, garreg wrth garreg, i Sain Ffagan, oherwydd wedi gadael y coleg fe apwyntiwyd John yn Ymchwilydd Cynorthwyol yn yr Amgueddfa Werin.

Wedi cyfnod yno dychwelodd i'r gogledd a'i benodi yn Bennaeth Adran Gymraeg Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy. Ond croesi'r Fenai fu ei hanes ymhen sbel a chychwyn ar ddyletswyddau newydd fel Cynhyrchydd Rhaglenni Nodwedd gyda'r BBC ym Mangor, nes symud unwaith eto i Gaerdydd. Bu gyda'r Gorfforaeth am wyth mlynedd ond, cymaint ei ddiddordeb mewn llen gwerin, fel y denwyd ef unwaith yn rhagor gan gyffro Sain Ffagan, ble yr oedd yn Rheolwr Gwasanaeth Ymwelwyr.

Roedd John yn awdur toreithiog ac fe'i cofir fel Golygydd y cylghrawn poblogaidd 'Llafar Gwlad'. Flwyddyn neu ragor yn ôl cafwyd ganddo ddwy gyfrol o 'Straeon ac Arwyr Gwerin' a'r drydedd gyfrol ar fin ei chyhoeddi. Deallir mai ei brosiect olaf oedd ymchwil i len gwerin amryw o safleoedd cynhanesyddol yng Nghymru, o dan y pennawd 'Lleisiau'r Meini'.

Ni all neb anwybyddu, yn sgil yr holl gyhoeddiadau hyn a'i wybodaeth eang, iddo wneud cyfraniad hynod ganmoladwy i'r agwedd arbennig yma o'n diwylliant cenedlaethol ac mae ein dyled yn anfesuradwy iddo am hynny. Roedd marwolaeth John Owen Huws yn golled aruthrol, nid yn unig i'w deulu a'i gyfeillion, ond hefyd i Gymru ac fe amlygir hyn yn fuan iawn yn y byd cyhoeddi a darlledu.

Fel y soniais, nid person i segura a thin-droi oedd John ac yn naturiol, gofynnwyd y cwestiwn, sut yr oedd yn cael yr

parhad ar dud 14

www.s4c.co.uk



HOLL HWYL GŴYL YR URDD

Bydd Urdd Gobaith Cymru yn dathlu doniau plant a phobl ifainc Cymru mewn digwyddiad unigryw dros dridiau yn ystod y Sulgwyn. Dilynwch holl hwyl yr ŵyl ar S4C.

GŴYL YR URDD 2001

DARLLEIDIADAU CYSON
30 MAI - 1 MEHEFIN

S4C

antur WAUNFAWR



Meithrinfa Blanhigion

blodau gwelyau yn awr yn barod

dewis eang o blanhigion ar gyfer basgedi, tybiau a gardd



Bryn Pistyll, Waunfawr

01286 650 721
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

O SIAMBAR SELWYN

Tydi'r hen glwy Traed a'r Genau 'ma'n achosi trafferthion. Canslo cyfarfodydd, gohirio pwyllgorau, ond eto mae 'na ryw anghysondeb ynglŷn â'r cyfan.

Do, fe ohiriwyd cyfarfod o Gyngor Cymdeithas Llanddeiniolen ond eto fe ganiatawyd i drigain mil o bob rhan o Brydain lenwi Old Trafford ac, er gwaetha'r mwd a'r glaw roedd 'na filoedd ar filoedd yn Aintree ar ddydd y Grand National. Ydi mae'n anodd deall y drefn - gadael i'r miloedd deithio ar draws gwlad i rاسus ceffylau ac i gemau pêldroed ond eto gohirio cyfarfodydd ac eisteddfodau lleol dros Gymru gyfan.

Roedd gen i fwy o eisteddfodau eleni nag a fu gen i ers tro byd ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael treulio fy mhedwar canfed eisteddfod gyda chyfeillion Llanrhaeadr ym Mochnant ym mis Tachwedd. Ond, oherwydd yr aflwydd, bu'n rhaid gohirio am eleni eisteddfodau Y Bala, Y Ffôr a'r Bontnewydd, felly digon o waith y caf i ddathlu'r pedwar canfed eleni. Gobeithio y bydd pethau wedi gwella erbyn yr Hydref ac y caf ymweld ag eisteddfodau Marian-glas, Gwaun Gynfi a Threuddyn yn ogystal â Llanrhaeadr ym Mochnant. Bydd angen un arall i gyrraedd y pedwar cant.

Yn anffodus mae yna un eisteddfod na chaf i y fraint o fynd iddi byth eto, sef Eisteddfod Ponterwyd. Yr Arglwydd Geraint Howells oedd brenin y Steddfod hon. Fo oedd yr ysgrifennydd ers blynnyddoedd lawer. Yn wir, fo a'i briod, Olwen, oedd yn cynnal prif oruchwylion yr eisteddfod a phrofiad arbennig oedd cael y fraint o feirniadu yno a phrofi coreso cynnes aelwyd Glennydd.

Rhaid fyddai galw yno i gael cinio cyn y Steddfod a chael sgwrs, ac yno hefyd o gwmpas y bwrdd cinio y byddwn i'n derbyn cynhyrchion llenyddol

yr Eisteddfod, a rhaid fyddai eu beirniadu yn ystod cystadlaethau cerddorol yr ŵyl. Oedd, roedd yna awyrgylch cartrefol braf yn Eisteddfod Ponterwyd.

Oherwydd amharoddrwydd rhai iau i gymryd trosodd, yn anffodus, ni chynhelir yr eisteddfod eto ac rwy'n siŵr y bydd eisteddfodwyr selog Bro'r Eco fel Wmffra, Alun a Meira yn gweld y golled hefyd. Diolch i rai fel yr Arglwydd Geraint, er ei brysurdeb, am ei gefnogaeth ffyddlon i'w bentref a'i gapel dros y blynnyddoedd.

Wrth sgwrsio uwch cinio yno y llynedd y deallais i fod yr Arglwydd Geraint a minnau yn gefnogol i'r un tîm pêldroed ers dyddiau ein plentyndod, ac am yr un rheswm. A'r tîm? Wel, Sunderland o bawb.

Pam? Wel dyna'r tîm cyntaf i ni'n dau ei gofio yn ennill Cwpan Lloegr. Sunderland yn trechu Preston North End o dair gôl i un yn 1937.

A wyddoch chi be? Roeddwn ni'n dau yn medru enwi'r tîm ac yn cyd-lefaru'r enwau gyda'n gilydd, fel Rhodd Mam.

Mapson, Gorman, Duns, Burbanhs, Gurney, Hastings a'r gweddill, heb anghofio yr enwog Raich neu Horatio Carter, a fu'n chwarae i Loegr droeon.

Oes, mae 'na ddigon o amrywiaeth i'w gael mewn sgysiaue eisteddfodol, ac mae'r cwmni sy'n crwydro o Steddfod i Steddfod yn gwmni diddorol hefyd. Dyma'r criw sy wedi dysgu sut i ennill yn wylaidd ac i golli'n anrhydeddus ac i fwynhau eu hunain yn swm cân a barddas.

Wyddoch chi be, dw'i ar goll yn lân am fod cymaint o Steddfodau wedi eu gohirio ac mi rydw i wedi colli gemau pêldroed lleol hefyd oherwydd y clwy'ma. Mi fydd ffeinal Cwpan Lloegr yn Stadiwn y Milflwydd tua chanol Mai ac mi fydd honno yn sicr o fynd ymlaen - clwy'r traed a'r genau neu

beidio. Ydw, mi rydw i'n edrych ymlaen at y frwydr rhwng Lerpwl ag Arsenal.

Dwi'n edrych ymlaen yr un mor frwdfrydig at Brifwyl Dinbych a'r Cylch gan fawr hyderu na fydd na'r un clwy yn tarfu arni.

Mae gen i gof plentyn am Brifwyl Dinbych 1939 - dwy

Cafwyd yr ymateb diddorol yma i golofn Selwyn drwy'r post. Yn anffodus drwy amryfusedd aeth enw'r awdur ar goll! Byddai'r golygyddion yn ddiolchgar pe gallai gysylltu fel y galkwn gydnabod ei chyfraniad yn llawn yn y rhifyn nesaf.

I Olygydd Eco'r Wyddfa

Roedd yr erthygl O Gaban Selwyn yn rhifyn diwethaf yr Eco yn ddiddorol iawn i mi gan fy mod i a'r gŵr yn Ne America ar yr un pryd.

Aethom rownd yr Horn ar Ionawr 16. Roedd y môr yn ddigon gwyllt a'r gwynt yn gryf iawn ond daeth yr haul allan ar yr Horn wrth inni ei basio. Er gweld llawer golygfa ardderchog yn Chile ac Argentina, uchafbwynt y daith oedd yr ymweliad â'r Wladfa. Doedd ein llong ni ddim yn trefnu tripiâu yno ond llwyddais i gasglu 16 o bobl oedd yn awyddus i fynd i'r Wladfa. Roedd un ferch arall yn Gymraes a chawsom finibws a thywysydd ardderchog.

Aethom i Rowson, y dref gyntaf a sefydlodd y Cymry, i weld y capel cyntaf, Capel y Berwyn. Yna i Drelew i weld capel Moriah a chofgolofn y Parch Lewis Jones, arweinydd y Cymry cyntaf.

Ymlaen wedyn i Gaiman, i hen orsaf y dre sydd wedi ei throi yn arddangosfa Gymreig

flynedd ar ôl i Sunderland ennill y cwpan. Ond Steddfod ddi-goron a di-gadair fu Prifwyl 1939 - yr unig dro yn hanes yr Eisteddfod i hynny ddigwydd.

Mi gaiff y beirdd well hwyl arni 'leni, gewch chi weld. Gobeithio'n wir. Pwy enillith y cwpan ys gwn i - Wel, wnaiff Sunderland ddim.

yn dangos dodrefn a phethau'r hen bobl. Roedd y lle dan ofal Mrs Roberts a'i hŵyr, y teulu yn hanu o Gaernarfon ac roeddynt yn siarad yr un Cymraeg â finna. Ymlaen wedyn i ysgol gynradd y Gaiman lle roedd chwaer Mrs Roberts yn disgwyl amdanom. Mae llyfrgell eang Gymraeg a Saesneg yno. Cyfarfûm yno ac athrawes ifanc o Gymru - un o bump sydd yn y Wladfa ar hyn o bryd yn dysgu Cymraeg. Roedd yr ymweliad yn agoriad llygad i egni sydd yn cael ei roi gan y bobl yno, er yn dal yn dlawd, i gadw'u hiaith.

Cafodd pawb ddiwrnod diddorol dros ben. Un i gofio am ddewrder a gwytnwch y 150 a aeth drosodd ar y Mimosa, a'r ymdrech a wnaethant i goncro'r Paith. Cawsom ninnau de Cymreig yn Nhŷ Gwyn.

Calondid i mi oedd gweld y bordin croeso yn Porth Madryn - y gair CROESO ond yn ail i'r Sbaeneg - a'r ieithoedd eraill yn dod ar ei ôl. Ac hefyd y cerflun o'r wraig o Gymraes ar fin y dŵr, cwmplas 10 troedfedd o uchder. Teyrnged iddynt o'r amser caled a gawsant yn ceisio concro'r tir anial.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava


AA
Specialist


MOT


RAC
Selected


GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrellied

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car


YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

Un funud fach ...

EWYLLYSIO

'Cymru'n Cyfri'. Dyna bennawd ffurflen y cyfrifiad y bu cymaint o ddadlau yn ei chylch. Mi gyrhaeddodd acw y diwrnod o'r blaen. Ella bod Cymru'n cyfri pennau trwy'r ffurflenni hyn, ond mater arall ydi faint mae'r Gymraeg yn ei gyfri. Wedi'r cwbl, dim ond ar y ffurflen Saesneg ddaeth acw yr oedd y cyfeiriad a'r cyfeirnod wedi ei lenwi'n barod, a byddai hynny ynddo'i hun yn gwneud i lawer ddefnyddio'r fersiwn honno'n ddigwestiwn. A tydi'r Cymry'n cyfri dim wrth gwrs. Does dim blwch tic i nodi ynddo mai dyna ydym. Mi gawn ni sgwennu Cymro neu Gymraes dan y blwch 'Arall', ond pa werth yr ystadegau pan fydd miloedd o Gymry heb drafferthu neu feddwl gwneud hynny?

Er gwaetha'r holl bwyso am i'r ffurflenni gael eu newid ni wnaed dim. *Doedd dim digon o amser i'w newid. Byddai'n rhy ddrud i'w newid.* Sgersli bilif! Y gwir yw nad oedd ewyllys i newid y ffurflenni. Dyw Llundain ddim eisiau i ni feddwl amdanom ein hunain fel Cymry, yn genedl ar wahân. Nid blerwch wrth gynllunio ffurflen; nid camgymeriad bach ar ran Len Cook a'i dîm yn Swyddfa'r Cyfrifiad sydd tu cefn i'r holl fusnas yma. Penderfyniad bwriadol oedd o, penderfyniad gwleidyddol i sicrhau nad ydym ni yn mynd yn ormod o lanciau ac yn dechrau meddwl ein bod ni wedi'r cwbl yn genedl fach go iawn.

Yr ewyllys sydd ar goll. O gael hwnnw, byddai'r ffurflenni wedi eu diwygio a'u hail argraffu, faint bynnag y drafferth a beth bynnag y gost.

A'r un modd, yr ewyllys sydd angen ar bob un ohonom ninnau yn ein bywydau bob dydd. Yr ewyllys i blesio Duw, ac i garu cymydog; yr ewyllys i addoli, ac i helpu; yr ewyllys i geisio maddeuant Duw, ac i faddau i'n gilydd. Mi ffendiwn ni bob math o esgusodion dros beidio gwneud y pethau hyn, ond mater o ewyllys yw hi yn y bôn. Cydnabod hynny sydd ei angen. Pobol heb awydd addoli na charu nac ufuddhau i Dduw ydan ni i gyd. Y gamp ydi cydnabod hynny a gofyn i Dduw roi i ni'r ewyllys i wneud y pethau yma er ei fwyn.

Edifeirwch ydi gair Y Beibl am y peth. A thybed na fedrai llywodraethau fentro dangos peth o hwnnw ar brydiau.

John Pritchard

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CAPEL COCH: Dechreuwyd defnyddio'r llyfr emynau newydd 'Caneuon Ffydd' ddydd Sul, Mawrth 25. Cynhaliwyd oedfa gymundeb fore'r Groglith, Ebrill 13, dan arweiniad y Gweinidog. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr yng nghapel Tabernacl Cwm-y-glo brynhawn Sul, Ebrill 8. Eitem ar thema hanes Joseff a'i frodyr oedd yn cael ei chyflwyno ganddynt eleni.

MARWOLAETH: Cydymdeimlwn â theulu Mr Norman Pritchard a fu farw ar Fawrth 21 yn Ysbyty Gwynedd. Cynhaliwyd ei angladd yng nghartref y teulu ac yna ym Mynwent Nant Peris dan arweiniad y Parchg Gwynfor Williams. Y cludwyr oedd Ernest, Selwyn, Tony, Gareth, John a Douglas. Y galarwyr oedd Mildred, Mam, David, Lee, Hannah, Ann, Rhiannon, ynghyd ag amryw o gyfeillion a chymdogion. Yr oedd Scott ac Andrew wedi methu bod yn bresennol.

UNDEB Y MAMAU: Bnawn dydd Mawrth, Ebrill 3ydd yn Nhŷ Sant Padarn cynhaliwyd y cyfarfod misol. Mrs Betty Humphreys gymerodd y gweddïau agoriadol. Croesawyd Mrs Brenda Roberts o Nant Peris atom a chafwyd amser hynod o ddiddorol a hwyliog yn ei chwmi. Y pwnc ddewisodd oedd 'Hwyl drwy Wasanaethu'. Derbyniwyd cofodion y mis blaenorol yn gywir. Anfonwyd dymuniadau am wellhad buan i bedair aelod oedd ddim yn bresennol o achos gwaeledd neu anhwylostod, sef Mrs Hilda Williams, Mrs Betty Williams, Mrs Bet Hughes a Mrs Gwen Williams. Cafwyd adroddiad o'r Cyfarfod Deoniaethol a gynhaliwyd yn Y Felinheli dydd lau Ebrill yr ail. Yn ymorol am y baned oedd Mrs Nelly Morris. Diolchodd Mrs Audrey Evans i Nellie a Brenda. Enillydd y raffl oedd Mrs Brenda Roberts. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

PÊL-DROED: Bydd aelodau timau plant a ieuencid y pentref yn falch o ddeall bod y gemau am ail ddechrau erbyn hyn. Mae argyfwng clwy'r traed a'r genau wedi gorfodi gohirio'r holl gemau ers wythnosau. Ond wrth i bethau wella o ran y clwy mae pethau'n dod i drefn eto ar y caeau chwarae, er y bydd rhaid cadw

oddi ar Gae'r Ddôl am beth amser eto.

ER COF am annwyl chwaer, sef Eluned Mai Jones a hunodd Ebrill 14, 1998. Modryb annwyl Trefor a Gareth a chwaer Rhiannon, 57 Dôl Elidir

DYMUNA Mamie Parry ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, y blodau a'r ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr Ysbyty, ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr i bawb am bob caredigrwyd.

PLAS PENGWAITH. Wedi ein gadael ar ôl cyfnod reit hapus mae ein Swyddog Mewn Gofal, Linda Owen. Mae'n symud yn ôl i Blas Ogwen ac mae pawb yn dymuno pob lwc iddi.

Hoffai'r swyddogion, staff a thrigolion ddatgan ein diolch yn fawr i Ms L. Pritchard, Y Berth am ei rhodd garedig i gronfa mwynderau'r Cartref er cof am Mr Thomas Pritchard, ei brawd. Diolch yn fawr iawn.

Mae Mrs C. Jones, Llanberis a Mr a Mrs T. Parry, Y Groeslon wedi dod atom i aros am gyfnod. Dymunwn groeso mawr iddynt atom.

Wedi mynd gartref mae Mrs A. Jones a Mrs N. Jones, y ddwy o Hafan Elan, Llanrug. Dymunwn bob lwc iddynt hwythau.

Yn anffodus mae Mrs N. Sanderson wedi gorfod ein gadael am gyfnod. Dymunwn wellhad iddi buan iddi hithau yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch adref atom a brysiwch wella.

Yn dathlu eu pen-blwyddi y mis yma bu Mrs M. Bannister, Mr G. Jones a Mr G. Meirion Jones. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Cafwyd arwerthiant dillad yn y Cartref ar Ebrill 2. Diolch i Graham am droi allan a rhoi'r cyfle i'r trigolion edrych ar a phrynu eu dillad eu hunain.

Mae'r trigolion wedi bod yn brysur hefyd yn paratoi am y Pasg. Maent wedi gwneud cardiau a bocsus tlws wedi eu haddurno a wyau bach siocled i mewn ynddynt.

Neis gweld Miss M. Williams yn ôl ar ôl derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty fis Ebrill.

Hoffai pawb yn y Cartref ddatgan ein croeso cynnes i'r Pennaeth newydd hefyd. Cyd weithio gyda Liz Williams.

LLYTHYR

Annwyl Olygydd

A gaf fi rywfaint o le yn yr Eco i ofyn cwestiwn neu ddau ynglŷn â chyfrol Rol Williams, 'Pobol tu ucha'r giât.' Roeddwn yn falch o weld cyhoeddi'r llyfr hwn sy'n sôn am ardal a phobl Cwm Brwynog. Ond rhaid i mi gyfaddef bod rhai pethau a welais ynddo yn gwneud i mi fod eisiau gofyn i'r awdur ai ffaith ynteu ffuglen ydi'r llyfr wedi'r cyfan.

Er enghraifft, ar dudalen 33 dywedir mai Richard a Catherine Roberts a fagodd David Roberts. Henry a Margaret a wnaeth hynny. (Henry oedd y dyn y sonir amdano ynglŷn â'r achos llys). Hwy oedd rhieni Catherine, John a Richard. Mae Henry a Margaret wedi eu claddu yn Nant Peris, ymhell o Drefriw.

Richard a ffermiodd Yr Helfa gyda'i briod Ellen, merch fengaf Y Foty (chwaer i Ellis ac R.C.) Richard ac Ellen oedd rhieni Jinny, Maggie ac Idwal. Idwal wedyn gymerodd drosodd ar ôl ei dad, gan fyw yn Yr Helfa nes iddo symud i'r Hafod.

Ni fedraf ddeall sut mae cymaint o gamgymeriadau mewn un paragraff yn y llyfr. Mae'n biti mawr bod y ffeithiau yn anghywir, gan na fydd darllenwyr y dyfodol ddim callach am y gwir ffeithiau.

A rhaid i mi ddweud fy mod yn gweld y cyfeiriadau at yr achos llys a'r anghydfod rhwng teuluoedd Helfa Fawr a Helfa Fain yn hynod o unochrog. Dim ond rhyw chwe brawddeg a geir o'r llythyrau a anfonodd Henry Williams, Helfa Fawr. Ond mae'r dyfyniadau o lythyrau Owen Pritchard, Helfa Fain yn para am ddwy dudalen yn y llyfr. Ac mae'n biti mawr na fyddai'r llyfr yn dweud pethau eraill am Henry Williams. Mae yna lawer mwy i'w ddweud amdano na'r hanes anffodus hwnnw. Roedd Anti Maggie, ei ferch, yn meddwl y byd o'i thad, a byddai wedi ei brifo'n arw gan y portread ohono yn y llyfr hwn. Dim ond tair blynedd sydd ers iddi hi farw wrth gwrs, ac felly nid delio efo hen, hen hanes ydan ni efo'r stori hon.

Gyda llaw mae gennyf gopi o lythyr diddorol a ysgrifennodd Evan Owen, gŵr Anti Maggie, lle mae'n rhestru nifer o bethau y dylid eu gwneud yng Nghwm Brwynog i wella ansawdd bywyd y bobl oedd yn byw yno. Rwy'n siŵr y byddai'n werth i chi ei gyhoeddi ryw dro er mwyn i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa gael ei weld.

Diolch am y llyfr, ond mae'n biti nad yw pob dim sydd ynddo yn gywir hefyd.

Yr eiddoch yn gywir

Jane O'Donnell
(merch Idwal Williams, Helfa)

O'R ARCHIF LLUNIAU



Llun o beth yw hwn a phryd oedd o yn yr Eco? Rhowch wybod i ni.

CHWILOTA

Bwlch Rwdan a Hen Wraig Ar y Plwy'



Soniais rhyw ychydig am dyddyn Bwlch Rwdan y mis diwethaf. Erbyn hyn daeth mwy o wybodaeth amdano i'r amlwg, a hynny ar ôl dyfal chwilio yng nghofrestrau plwyf Llanddeiniolen ac yn amrywiol lyfrau rhent Stâd y Faenol.

Y cyfnod cynharaf o'r enw, fel y nodwyd y mis diwethaf, oedd yn 1819 gyda chofnod claddu Thomas Rowland (59 oed). Dri mis yn ddiweddarach, ym mis Ionawr 1820 cofnodir bedyddio merch o'r enw Anne i Ellin Thomas (merch Thomas Rowland tybed?). Nodir mai plentyn anghyfreithlon oedd Anne, yn ferch i William Pritchard, Penllyn, a ddisgrifir fel chwarelwr. Mae'r cartref yn cael ei enwi fel Bwlch yr Wydain – sillafiad gwahanol eto!

Erbyn 1827 mae pâr priod – Edward ac Ellin Jones – yn byw yno. Ceir cofnod o fedyddio mab, Thomas, iddynt yn eglwys Llanddeiniolen ym mis Ebrill. Disgrifir Edward Jones fel llafurwr. Methais hyd yma a chael cyfle i ddarganfod ymhle a phryd y priodwyd Edward Jones ac Ellin. Tybed ai Ellin Thomas oedd hi? Mae enw'r mab yn awgrymu hynny. Ddwyllydd yn ddiweddarach, bedyddiwyd merch, Ellin, i'r ddau yn eglwys Llanddeiniolen. Yn y flwyddyn honno hefyd (1829) cofnodir fod Edward Jones yn talu pymtheg swllt yn flynyddol i'r Faenol am dyddyn Bwlch Rwdan. Yr un yw'r cofnod ar gyfer y flwyddyn ddilynol hefyd, ond yna, mewn nodyn ymyl y ddalen wedi ei ysgrifennu â phensil, ceir y canlynol: *'house fallen down and rent of land to be six shillings.'* Does ryfedd felly nad oes sôn am Edward Jones yn llyfrau rhent y Faenol am 1831, ond fod tir y tyddyn yn cael ei ddal bryd hynny gan Henry Jones (neu Henry Jones Parry fel y'i cofnodir ar brydiau), tenant Plastirion, ac yntau'n talu chwe

swllt am y frain. Plwy Llanddeiniolen dalodd y naw swllt oedd yn ddyledus gan Edward Jones am dŷ nad oedd yn bod bellach!

O 1832 ymlaen, mae'r enw Bwlch Rwdan yn parhau i ymddangos ar y llyfrau rhent, ond mae'n amlwg mai cyfeirio at dir y tyddyn yn unig a wneir, oherwydd fod y rhent wedi gostwng o bymtheg swllt i chwe swllt y flwyddyn.

I ble tybed yr aeth Edward Jones a'i deulu? A pham na wnaethpwyd unrhyw ymdrech i ail-adeiladu Bwlch Rwdan?

Cyfeiriais y mis diwethaf hefyd at wraig weddw o'r enw Elizabeth Roderick oedd yn byw yn Bryn Griafole, *'cottage and garden'*, ac yn talu dau swllt y flwyddyn o rent i'r Faenol rhwng 1814 ac 1822. Roedd tyddyn Bryn Griafole yn cael ei ddal gan John Evans, ond nid oes sicrwydd a oedd yn byw yno, oherwydd daw i'r amlwg yng nghofrestrau plwy Llanddeiniolen fel John Evans, Ty'n Drwfwl.

Ar ôl 1822 does dim sôn am Elizabeth Roderick yn llyfrau rhent y Faenol, ond roedd yn parhau i fyw yn yr ardal er nad oes sôn amdani eto hyd 1834. Bryd hynny, mae'n ymddangos yng nghofnodion y Ffestri Blwyfol sy'n nodi'r cymorthdaliadau a wna'i'r plwyf i'r tlodion. Yn y cofnodion, cyfeirir atynt fel 'sist' (*assistance* mae'n debyg). Yn ystod y flwyddyn ariannol o Ebrill 1834 hyd ddiwedd Mawrth 1835 talodd plwyf Llanddeiniolen 'sist' o dri swllt a chwe cheiniog yr wythnos i Elizabeth Roderick at ei chynnal. Ym mis Hydref

1834 derbyniodd hefyd swllt tuag at brynu crys. Parhaodd y plwy i dalu 'sist' iddi hyd y deunawfed o fis Mehefin 1835 pan fu'r hen wraig farw yn 85 oed. Fe'i claddwyd bedwar diwrnod yn ddiweddarach ym mynwent Llanddeiniolen, a'r plwy hefyd fu'n gyfrifol am dalu deunaw swllt am arch iddi. Yng nghofrestrau'r plwy, nodir yn ei chofnod claddu mai yn Nhy'n Drwfwl roedd yn byw.

Dengys y ddau hanesyn pa mor galed oedd bywyd i dyddynwyr yr ardal yn y cyfnod hwnnw. Mae bron yn amhosib i ni heddiw ddychmygu'r teimlad o anobaith a diymadferthedd yn achos Edward Jones – ei dŷ wedi disgyn i lawr, dyled rhent o naw swllt ganddo i'w thalu, heb sôn am feddwl ble câi ymgeidd i'w deulu ifanc. Ac Elizabeth Roderick, yn llythrennol yn ddibynnol ar y plwy am ei chynhaliath ac am ei chladdu.

Dirgelwch y Cerrig Beddi

Gwyddwn fod cerrig beddi wedi dod i'r amlwg wrth i fwthyn Bryn Pistyll yn y Fachwen gael ei adnewyddu, a bûm yn ceisio darganfod rhywfaint am y rhai fu'n byw yno, ond rhaid diolch i Mrs Ceridwen Williams, Hafan Elan, Llanrug am anfon diagram o'r cerrig, gan gynnwys yr enwau sydd wedi eu cerfio arnynt. A dyna ble mae'r dirgelwch. Er i mi chwilio drwy gofrestrau claddu plwyf Llanddeiniolen, Llanberis a Llanrug, does dim sôn am bobl o'r enwau na'r oedrannau hyn yn cael eu claddu yn yr un o'r tri phlwy yn y blynyddoedd a nodir ar y cerrig beddi! Beth felly yw'r eglurhad? Efallai na

chawsant eu claddu mewn mynwent plwy. Mae hynny'n anhebygol iawn. Efallai iddynt gael eu claddu y tu allan i'r tri phlwy a nodais, ond os felly, sut daeth y cerrig i ardd Bryn Pistyll yn y Fachwen?

Eli'r Ddrywinen

Yn dilyn yr adroddiadau diweddar yn sôn am wahanol feddyginiaethau a wneid gartref, daeth gair gan Mr Elwyn Griffith, Cae Ysgubor, Waunfawr. Mae'n adrodd sut y byddai ei ddiweddar dad, John Griffith (John Moi) yn gwneud eli cartref ar gyfer cael gwared â'r ddrywinen.

Gweithiai bryd hynny yn Chwarel Dinorwig, gan deithio yno'n ddyddiol gyda llond bws o chwarelwyr eraill a redai o'r hen Bost yn y Waun. Mae'n bwysig nodi mai yn y chwarel roedd yn gweithio, oherwydd powdwr du oedd un o gynhwysion pwysicaf yr eli. Fel hyn y dywed Mr Griffith: *'Byddai fy nhad yn ffrio bacwn cartref, gan ddefnyddio'r sailm a'i gymysgu gyda powdwr du ac amrywiaeth o ddail crwn (fel yn achos Catrin, Dinorwig). Byddai'r eli yn clirio'r ddrywinen oddi ar ddyn ac anifail mewn byr amser.'*

Ychwanegodd hefyd iddo dderbyn eli pwrpasol gan y milfeddyg flynyddoedd yn ddiweddarach, ond nad oedd hwnnw hanner mor effeithiol ag eli'r powdwr du!

Parti Eryri yn Dathlu Pen-blwydd

Gan Liz Roberts o Fangor (gynt o Lanberis) y daeth y wybodaeth am y llun o Barti Eryri a ymddangosodd yn rhifyn diwethaf yr 'Eco'. Mae'n

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

HERE LIES
MARY

MERCH
JOHN JONES

BRYNCELYN

DIED 1825

27 yn oed

JANE
ROBERTS

DIED 1827

71 yn oed

H.W. 71 -

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

credu i'r llun gael ei dynnu ar achlysur dathlu pen-blwydd Parti Eryri yn ddeg oed yn 1977, ac mai yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis roedd yr achlysur, gyda'r diweddar Ifor Bowen Griffith, Caernarfon yn wr gwâdd. Mae'n enwi'r holl aelodau sydd yn y llun:

Rhes gefn (chwith i'r dde): Edwin Evans (Deiniolen), Deiniol Huws (Caeathro), Rob Jones (Waunfawr), Haydn Jones (Waunfawr), Alwyn Jones (Talmignedd), Rol Williams (Waunfawr), Ifor Huws (Caeathro) ac Irfon Roberts (Bontnewydd).

Rhes ganol: Gwyneth Parry (Llanberis), Liz Roberts (Llanberis), Margaret Roberts (Caernarfon), Ellen Ellis (Talmignedd) ac Ann Parry Jones (Llanberis).

Rhes flaen: Rhiannon Roberts (Llanrug) Heulwen (Dyffryn Nantlle), Meira Ellis Owen (Penygroes), Mair Jones (Penisarwaen) a Marcia Thomas (Llanberis).

Dirwyo am Anwybyddu Gwaharddiad Symud Anifeiliaid

Gyda chlwy'r traed a'r genau yn parhau i achosi problemau lu led-led y wlad, diddorol oedd darllen am ddau o bobl leol a gafodd eu dirwyo dros ganrif yn ôl am symud moch mewn cyfnod ble roedd clefyd-y-moch (*swine fever*) yn effeithio ar yr ardal. Daw'r achosion i'r amlwg yn yr adroddiadau am weithgareddau'r llys yng Nghaernarfon ym mis Mai 1898. Dirwywyd John Williams, Ynys'ceurn, Llanddeiniolen am symud hwch o Bentir i Ebenezer, a dirwywyd Robert Owen o Bentir am symud moch o Bentir i Landegai. Ni nodir swm y ddirwy.

Tiriogaeth yr Huwsiaid

I'r rhai ohonoch sy'n aelodau o Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, dichon eich bod wedi sylwi yn rhifyn Ebrill o gylchgrawn y Gymdeithas - *Gwreiddiau Gwynedd* - lun o Tan y Ffynnon ar ochr y ffordd fawr

rhwng twnel Penllyn a Phengilfach uwchben gallt Glynrhonwy. Llun ydyw o gerdyn post gan R.C.Symons o Lanberis yn dyddio o tua 1904, ac mae'n dangos Achsah a Morris Hughes a phump o'u plant yn sefyll o flaen y tŷ. Anfonwyd y llun i'r cylchgrawn gan berthynas iddynt, Brian T. Hughes o Ledbury yn Swydd Henffordd. Mae'n nodi mai aelodau o deulu'r Hughes oedd yn byw ym mhedwar o'r tai ar hyd y rhan hon o'r ffordd, gan gynnwys Tan y Pant a Hafod Wen. Mae hefyd yn cyfeirio at ewythr Tommy a fu'n gyfrifol am gerfio'r ddarlennfa a'r pulpud yn eglwys Llanrug (roedd yr ardal hon hyd rhyw bymtheng mlynedd yn ôl wedi ei chynnwys ym mhlwyf Llanrug). Oes rhywrai â chysylltiadau ac eglwys Llanrug all gadarnhau'r uchod neu roi dyddiad i'r gwaith?

Y Ferch o Ddinorwig â Chofeb ym Mhenygroes

Wel, faint ohonoch brynnodd 'Lleu'? A thybed sawl un ohonoch oedd â gwybodaeth am Catherine Jane Parry a fu farw yn Llundain ar Fawrth 5ed 1898. Roedd (yn ôl y gofeb) yn ferch i William ac Elisabeth Parry, Bron Elidir, Dinorwig. Mae'r erthygl yn 'Lleu' yn nodi fod dau 'ohebydd arbennig' am ddatgelu mwy am ddirgelwch y garreg yn y rhifyn nesaf. Roedd golygydd 'Lleu' yn tybio mai fi oedd un o'r ddau rheini, ond rhaid i mi gyfaddef na fedrais ddarganfod dim am y ferch na'i rhieni - hyd yn hyn.

Bûm yn archwilio'r cyfrifiadau am Ddinorwig am y

DINORWIG	
Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292	

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CRESO ADREF. Yr ydym fel ardal yn falch o ddeall fod Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian wedi gwella yn ddigon da i gael dod adref i'w chartref. Hyderwn y bydd yn cryfhau ac y cawn ei gweld hyd yr ardal yn fuan iawn. Brysia wella, Bet.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrat â Mr a Mrs Llewelyn Jones a'r plant, 4 Bro Elidir. Llew wedi colli ei frawd, Tommy, yng Nghaernarfon yn sydyn iawn. Yr ydym fel ardal yn cydymdeimlo â chwi yn eich colled a boed ichwi gael nerth y Nef yn ystod y dyddiau tywyll hyn. Hefyd anfonwn ein cydymdeimlad at Winifred, gwraig y diweddar Tommy. Wini yn un o blant yr ardal, wedi ei geni a'i magu yn Minffordd. Boed iddi hithau gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau hyn. Yn meddwl llawer amdanoch.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r

clwb uchod yn ddiweddar cafwyd pnawn hynod o ddiddorol yng ngofal yr heddwas Alan Bevan. Sgwrs oedd ganddo ar atal troseddau. Cafwyd awgrymiadau ganddo ar sut i wneud ein cartrefi a'n heiddo yn fwy diogel.

Cafwyd gwahoddiad gan Rose a John Canbrell i gael Rhostfa yn eu cartref yn ystod mis Mehefin. Rhoddwyd y te gan Mrs Alice Griffiths, Mrs Megan Morris a Miss Nellie Wyn Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Katie Lloyd Hughes.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon am yr holl anrhegion, cardiau ag arian a gafodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Llauer o ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau. Diolch i staff Ward Dulas am eu caredigrwydd a hefyd diolch i'r meddyg Robin Parry a'r gweinyddesau ym meddygfa Llanberis. Diolch i bawb.

Owen Parry ei hun farw yn 1874, yn wr ifanc 35 oed. Erbyn 1881 Edward Foulkes, ei wraig Jane a morwyn oedd yn byw ym Mron Elidir. Mae'n disgrifio'i hun fel '*slate quarry manager holding 8 acres of land*'. Yn 1891 Thomas Jones, '*clerk in holy orders*', ei wraig a morwyn oedd yn Bron Elidir.

Felly, beth oedd cysylltiad William ac Elisabeth Parry â Bron Elidir, a pham roedd eu merch ddeg ar hugain oed yn Llundain pan fu farw? Fel y dywedais y mis diwethaf mae siawns am stori dditectif dda yma!

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad ynglyn â hanes y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286 673515).

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -


Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: £40: Gareth Jones, Glyn Ceris; £25: Megan Williams, 17 Tref Eilian; £10: E.W. Williams, 8 Bro Waun. DIOLCH. Dymuna Gwilym, Iris a'r teulu ddiolch yn ddiwyll i bawb am bob mynegiant o gymorth a chydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drom o golli mab a brawd annwyl iawn. Diolch hefyd am y rhoddion er cof am John tuag at Ymchwil Asthma.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson ddiddorol iawn i ddiweddu'r Gymdeithas am y tymor pan gafwyd fideo a oedd wedi ei gwneud gan Mr Rol Williams gyda'r diweddar Mr Glyn Owen, Glan Gors. Roedd Glyn yn cymryd diddordeb mawr mewn gwneud clociau ac roedd ganddo lawer ohonynt yn ei gartref. Diolchwyd i Rol gan Mrs Catherine A. Jones. Pasiwyd yn unfrydol i gael Cymdeithas eto y tymor nesaf ac fe etholwyd pwyllgor i drefnu'r rhaglen.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod y Sefydliad dydd lau, Ebrill 11 cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mrs Catherine Tebbitts o Forfa Nefyn am 'Teddy Bears'. Mae Mrs Tebbitts yn casglu rhain ac roedd wedi dod ac amryw ohonynt gyda hi gan roi tipyn o'u hanes a phryd yr oedd wedi eu

prynu. Diolchwyd iddi gan Mrs Catherine A. Jones.

DIOLCHIAU. Dymuna Heulwen, Lowri, Rhys ac Elin ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar. Diolch o galon i John Gwynedd, Sylvia Prys Jones a Chriw'r Antur am eu cymorth arbennig. Hefyd hoffai Heulwen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a thrigolion Waunfawr am eu cymorth dros yr unarddeg mlynedd anodd diwethaf. Diolch yn fawr.

GENEDIGAETHAU. Llongyfarchiadau i Olwen a Kevin, Cartrefle ar enedigaeth mab bychan, Cai Meredydd. Brawd bach a chyfaill i Tomos. Hyderwn yn fawr eich bod yn setlo yn eich cartref newydd yma yn y Waun. Ganwyd mab bychan, Bryn, i Nickie a John, Stad Dôl Erddi. Llongyfarchiadau ichi ac i Mrs Ryan ar ddod yn nain.

Daeth Carys Jones, 11 Tref Eilian yn nain i Owain Alun, mab bach i Manon, ei merch, a'i phriod Alun.

Ganwyd mab bychan, Oliver Ray, i Ian a Samantha Johnston, gan wneud Mrs Alice Johnston, Ty Gwyn yn nain am y tro cyntaf.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a chroeso i'r rhai bach.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Yn ddiweddar bu Mrs Rhian



Plant bach yr Ysgol Feithrin Waunfawr yn eu gwisg 'ffansi' yn dathlu diwrnod 'Y Trwynau Coch' ar Fawrth 16 eleni.

Jones, Tref Eilian yn yr ysbty yn cael llawdriniaeth. Hefyd Mrs Sarah Lewis, Tref Eilian; Mrs Dilys Griffith, Tref Eilian; Mrs Megan Woods, Vardre; Mr Ovary, Pant Waun; Mrs Eirwen Jones a'i merch, Christy, Cynefin. Anfonwn ein cofion atoch a'n dymuniadau gorau am wellhad buan.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mr Rol Williams, Ardwyn sydd yn yr ysbty ym Mangor ar hyn o bryd. SYMUD AELWYD. Daeth teuluoedd i fyw i'r pentref a bu

teuluoedd eraill yn symud i aelwyd newydd o fewn y pentref. Dymunwn bob hapusrwydd ichi ar eich aelwyd newydd.

DYMUNIADAU DA. Daeth yn ddiweddd mis Ebrill eto eleni ac, ar y gorwel, mae arholiadau pwysig yn yr ysgol a'r coleg. Dymunwn y gorau i bob un fydd yn sefyll arholiad eleni.

MWYNHAU. Bu plant bach yr Ysgol Feithrin yn dathlu 'Diwrnod y Trwynau Coch' ar Fawrth 16 trwy ddod i'r ysgol mewn gwisg ffansi - gweler eu lluniau.

DRAENOG



A ma' nhw'n galw am ladd geifr Parc Padarn. Wel, ma' nhw'n drewi. Ond mi fasa llawar un ohonoch chi'n honni 'mod i a 'nhylwyth yn drewi hefyd - ac yn llawn chwain. A ma' 'na ddrewdod ymhlith pobol hefyd, er nad ydi'r rhan fwy' ohonoch chi ddim wedi'i ogleuo fo, eto.

Digwydd bod yng nghyffinia' un o westai Llanberis 'ro'n i, rhyw noson ddechra' Ebrill. Rhyw gyfarfod o rw bath yn ca'l 'i alw yn busnas consortiym o'dd ymlaen. Fanno galwodd rhywun am ladd y geifr. 'Cyl' oedda nhw'n 'i alw fo, achos yn Susnag roedda nhw'n siarad. Ro'dd 'na lot o Gymry yn bresennol hefyd, ond yn Susnag roedda nhw'n siarad.

BETWS GARMON

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Eurig Jones, Bryn Gloch ar ei ddywedd iad â Saran Thomas o Fangor.

Susnag 'di iaith twrsts 'da chi'n gweld, a poeni am rheini ro'dd y busnas consortiym. Ma'n rhaid siarad Susnag ne ddoith y twrsts ddim i Llanberis. A fysa gan y busnas consortiym ddim byd i 'neud wedyn.

Tybad faint o'r busnas consortiym o'dd yn gw bod am waith Prifysgol Cymru (University of Wales - rhag ofn bod rhai o'r busnas consortiym yn darllan hwn) ar effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg? Mwy am hynny, ella, mis nesa; os na fydda i (a'r geifr) wedi fy 'cyllo'.

Be ddechreus i ddeud am ddrewdod 'dwch?

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



STRYD FAWR
LLANBERIS

(01286) 872777

annette@peris.co.uk

- * Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- * Gwasanaeth dwyieithog
- * Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- * Trefniadau hedfan yn unig
- * Penwythnosau yn theatrau Llundain
- * Y pecyn cyflawn, h.y bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
- * Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- * Bargeinion munud olaf
- * Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch Annette neu Bethan

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

Dyma ddisgrifiad o'r profiad yng ngeiriau Ffion

Gair o Brofiad... Aarrgh! Yn sefyll yng nghefn y llwyfan yn clywed y sŵn yn chwyddo wrth i'r plant ymgasglu yn y theatr. Ac wedyn, wrth glywed y gerddoriaeth 'Nadoligaid' yn cael ei chwarae gan y band, roeddwn yn gwybod ei bod hi bron yn amser i'r sioe ddechrau. Roedd fy nerfau yn rhacs erbyn hynny! Roedd y ffaith fy mod yn edrych yn wirion yn gwisgo 'dungarees' a oedd yn rhy fawr o lawer, côt fawr liwgar 'pig tails', cap melyn, pumps mawr coch a brychni haul wedi'u paentio ar fy ngwyneb ddim yn helpu! Ie, fi oedd yn chwarae rhan 'Smwt', ffrind 'Sosej' (gweler y llun). Rhwng y dillad poeth a'r goleuadau llachar roeddwn yn chwys doman ac yn gweddio na fyswn yn gwneud camgymeriad. Roedd pob math o bethau'n mynd trwy fy meddwl... a fyddai'r gynulleidfa yn ymateb?... a fydd pob dim yn mynd yn iawn?... a fyddwn yn cofio fy llinellau?

CEUNANT

LLONGYFARCHIADAU i Ffion Jones, Rhos y Grug, ar ei rhan ym Mhantomeim Coleg Menai a berfformiwyd yn Theatr Gwynedd dros gyfnod y Nadolig - mae Ffion ar hyn o bryd yn dilyn cwrs Celfyddydau Perfformio yn y Coleg. Yn ôl Ffion fe fwynhaodd y profiad yn fawr iawn - actorion Hollywood gwyliwch eich hunain.

Y profiad gorau i mi yn bersonol oedd y 'buzz' yr oeddwn yn ei deimlo wrth i'r plant ymateb. Roedd hyn yn digwydd ym mhob perfformiad ac roedd clywed y plant yn cynhyrfu ac yn gweiddi pethau fel 'mae o tu ôl i chi!' yn deimlad anhygoel.

Y profiad gwaethaf a gefais oedd yn ystod un o'r perfformiadau, pan faglais a syrthio ar fy ysgwydd wrth gerdded i lawr y grisiau yn y 'finale'! Roeddwn mewn andros o boen ond fel mae nhw'n ei ddweud ym myd y celfyddydau perfformio: 'Ymlaen â'r Sioe!'

Mis Mai yn yr Ardd

Dyma i mi y mis hyfrydaf o'r flwyddyn:

'Mynwnw pe'r nef â'i mynnai Mai deuddeng mis fai mis Mai.' Byddwn yn canu 'ffarwel i'r gwynt a'r eira' gobeithio, er y cofiaf fynd am dro i Feddgelert ym mis Mai a chael cawod o eira!

Mae dywediad 'Ni saif eira ym mis Ebrill mwy nag wy ar ben ebill.' Mae mwy o obaith y mis hwn.

Mae'r Cennin Pedr yn siriol iawn. Wordsworth a ganodd am 'The Daffodil' a dyna'r tiwlip amryliw yn sefyll yn urddasol. Ac, wrth gwrs, y friallen fach. Daeth dwy eneth fach a thusw ohonynt i mi i'r tŷ o fy ngardd. Eifion Wyn a ganai 'Ewch i hel briallu ar bnawn o wanwyn gwyrdd.'

Aed rhai ar hyd y caeau
A rhai ar fin y ffyrdd,
Ac yna pan ddowch adre,
Bob un â'i dusw del,
Cewch bleser wrth eu rhanu
Nas cawsoch wrth eu hel.

Mae yna flodyn melyn hefyd o'r enw Doronicum sydd yn blodeuo yr un adeg â'r Cennin Pedr. Blodyn parhaol ydi hwn ac un o'r rhai cyntaf o rheiny i flodeuo.


Pan fydd y Cennin wedi cysgu peidied a'u rhwymo, fel bydd llawer yn ei wneud, ond eu codi a'u rhoi i gysgu hyd yr hydref ac yna'u hail blannu. Mae rhai goruchwylion digon annifyr i'w gwneud ond mae'n werth y drafferth.

Mae fy hen ffrind Myniawyd y Bugail (Geranium) wedi ei thorri i lawr i rhyw naw modfedd wedi cael ei chadw dan do dros y gaeaf heb roi llawer o ddŵr iddi a dyna hi, bydd yn lliwgar eto dros yr haf.

Peidiwch a phrynu planhigion a godwyd o hadau mân a'u rhoi allan yn rhy fuan, arhoswch hyd diwedd Mai.

Wedi'r gaeaf hir yr ydym wedi ei gael gobeithiwn am haf gwell i bawb, yn enwedig i'r ffermwyr sydd wedi dioddef cymaint o'r clwy traed a'r genau.

Côt



Mewn du roedd emynau'n dod - a'm heglwys
A'u maglau ar ddatod.
Brethyn cymun yw cymod;
Mewn urddas glas, newydd glôd?

R. Ll. J.

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil -
mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO 24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos


PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



VANTA



Pedair Stori Fer e.p.

C.D. Cyntaf y grŵp ROC Lleol allan diwedd Ebrill!

Llys-y-Coed, Heol Dinbych-y-Pysgod, Aberteifi,
Ceredigion, SA43 3AH
Ffôn: (01239) 614691 • Ffacs: (01239) 614680
Gwe: www.fflach.co.uk
Ebo: info@fflach.co.uk

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cyfarfu Cyngor Cymuned Llanberis ar nos Iau, 19eg o Ebrill yn 'Angorfa', gyda'r Cyngorydd Helen Sharp yn y gadair.

Croesawyd Mr Alun Williams (UwchLyfrgellydd Datblygu Gwasanaeth) a Ms Catrin Jones (Coleg Menai) i'r cyfarfod, a chafwyd cyflwyniad ganddynt yn y Ganolfan Dysgu Gydol-oes a leolwyd yn Llyfrgell Llanberis. Yn dilyn, cafwyd trafodaeth ar y dulliau gorau o hybu defnydd o'r Ganolfan gan drigolion lleol ardal Llanberis a'r pentrefi cylchynnol. Pwysleisiwyd yr angen i farchnata'r Ganolfan yn fwy effeithiol, ac i dynnu sylw'r cyhoedd at y ffaith fod y Ganolfan ar gael i'w defnyddio ar unrhyw amser, ac nid yn ystod oriau agor y llyfrgell yn unig.

Adroddwyd na allai Cyngor Gwynedd gynnig cartref i amgueddfa T. Rowland Hughes o fewn y pentref, ac mai'r unig leoliad derbyniol fyddai Amgueddfa Bangor. Adroddwyd hefyd fod trafodaeth i'w chynnal gyda'r Dr Dafydd Roberts o Amgueddfa Lechi Cymru ynglyn â'r posibilrwydd o gynnig lleoliad yno.

Yn dilyn hysbysebu am

swydd 'warden pentref', adroddwyd fod Menter Fachwen â diddordeb mewn ymgymeryd â'r gwaith. Trefnwyd i arolwg gael ei wneud o holl feinciau cyhoeddus Llanberis a Nant Peris, a derbyn pris am eu cynnal a'u cadw.

Derbyniwyd gwybodaeth fod pum cais cynllunio wedi eu caniatáu yn ystod y mis diwethaf, ond fod y cais am godi polyn telegyfathrebu yn Nant Peris wedi ei wrthod gan y Parc Cenedlaethol. Ystyriwyd dau gais pellach, sef estyniad i 4 Stryd y Dŵr, Llanberis ac addasu adeilad i greu annedd yng nghefn 50 Stryd Fawr, Llanberis. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ddau gais.

Derbyniwyd ateb gan y Parc Cenedlaethol yn nodi eu bod yn gefnogol i gais y Cyngor i danddaearu ceblau trydan a ffôn yn Nant Peris, ond fod hynny'n ddibynnol ar raglen adnewyddu MANWEB a'r arian ar gael gan y Parc pan fyddai hynny'n digwydd.

Ystyriwyd cynllun a phris am osod hysbysfwrdd ym Mynwent Nant Peris i arddangos rheolau. Cytunwyd ar y gwaith. Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynglyn â'r problemau a allai ddeillio o gerrig beddau ansad neu rai

wedi disgyn. Bydd y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Bydd materion yn ymwneud â llwybrau cyhoeddus yn cael sylw yn fuan wedi codi'r gwaharddiad o ganlyniad i glwy traed a'r genau. Derbyniwyd adroddiad o'r Parc Cenedlaethol yn nodi y bydd gwelliannau i lwybr Pistyll Gwyn, Nant Peris yn cael eu cynnwys yn rhaglen Llwybrau'r Ucheldir.

Derbyniwyd nifer o bapurau ymgynghorol a phapurau er gwybodaeth oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Gwynedd. Cwblhawyd Holiaduron Gwerth Gorau ar Gwynedd Daclus ac ar oriau agor llyfrgelloedd.

Bydd y Clerc a'r Cyngorydd Derek Jones yn mynychu cyfarfod yng Nghaernarfon ar 27ain o Ebrill i drafod newidiadau arfaethedig yng ngwasanaethau'r Heddlu a'r Llysoedd, a'r Clerc yn mynychu cynhadledd undydd yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn, 28ain o Ebrill i drafod Twristiaeth ac Iaith.

Gwneir cais ar i Gyngor Gwynedd osod biniau sbwriel ar y Stryd Fawr yn yr ardal sy'n ymestyn o Siop Spar draw i gyfeiriad Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor yn 'Angorfa' am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Mai 17eg.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Etholiad Cyffredinol

Etholaeth Caernarfon

rhowch bleidlais i

Hywel WILLIAMS

gwasanaeth i bawb yn lleol -
llais cryf yn Llundain



Hywel Williams

Cyhoeddwyd gan Walis George, 8 Stryd y Castell, Caernarfon
ar gyfer Hywel Williams, 15 Rhos Segonthwm, Caernarfon



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CAPEL Y RHOS. Fore Sul y Pasg cawsom wasanaeth bendithiol iawn dan arweiniad y Parch Dennis Young, Llanfairpwll. Braf oedd cael croesawu aelodau o'n chwaer eglwys yn Cysegr i'r oedfa.

Nos Iau Cablyd, yng Nghapel Hermon, cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun Undebol dan arweiniad Mr Merfyn Jones, Caernarfon.

PLAID CYMRU. Oherwydd clwy'r Traed a'r Genau, fe ohiriwyd yr Helfa Drysor a drefnwyd ar gyfer mis Mai.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod yn Ffestri Capel y Rhos nos Fawrth, 10 Ebrill gan yr is-Lywydd, Megan Roberts.

Pleser oedd gwrando ar y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy yn rhoi sgwrs am y troeon 'Chwerw a Melys' a ddaeth i'w ran.

Braf oedd croesawu Mrs Enid Wh. Thomas ac Ann Ifans ar ôl eu hanhwylder diweddar.

Yn ystod y cyfarfod Blynnyddol ym mis Mai yn yr Ysgol Gynradd

bwriedir casglu arian tuag at Gronfa Macmillan drwy rannu a blasu danteithion wedi'u paratoi gan yr aelodau. Gofynnwn am gefnogaeth ein haelodau ac unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu. DIOLCH. Dymuna Mrs Menai Jones, Sycharth, Gwel Fynydd ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr Ysbyty yn Llandudno ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch yn fawr.

BRYSIWCH WELLA. Mrs Ceri Hughes, Tegfan, Ffordd Glanmoelyn sydd wedi cael damwain yn ei chartref a Mrs Mair Williams, Bron Haul, Ffordd Glanmoelyn sydd wedi bod yn yr Ysbyty am gyfnod eto;

Cofion gorau at y ddwy ohonoch a phawb arall sydd ddim yn dda.

PROFEDIGAETH. Bu farw Mrs Jennie May Jones, Hafan Elan yn sydyn iawn, yn 92 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at ei chwaer, Mrs Sally Thomas, Rachel ei nith a fu'n gofalu amdani, a'r teulu i gyd yn Llandudno.

CARTREF NEWYDD. Dymunwn bob hapusrwydd i Mr a Mrs Llew Jones, Afon Rhos sydd wedi symud i Rosbodrual i fyw. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Bu'n gyfnod prysur i'r aelodau a'u hathrawon yn ddiweddar gyda Chymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon bawn Sul, Ebrill 1 a Chymanfa'r Annibynwyr, Cylch Dosbarth Cwm-y-glo yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo bawn Sul, Ebrill 8. Llongyferchir y plant i gyd am wneud eu gwaith mor raenus a diolchir i'r rhieni a'r rhai a ddaeth i'w cefnogi.

Cafwyd dwy Gymanfa fendithiol dros ben. Edrychir ymlaen rwan i drefnu Trip yr Ysgol Sul a mwynhau gweithgaredd ar y cyd gydag aelodau Ysgolion Sul Dosbarth Cwm-y-glo i godi arian tuag at addysgu Katalau Singano o Kenya.

PRIODAS HAPUS. Bawn Sadwrn, Ebrill 8 priodwyd Sioned Williams, Careb a Gwyn Parry, Bontnewydd. Bu'r gwasanaeth a'r brecwast priodas yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Ymunodd nifer o ffrindiau yn y bwffe a'r disgo gyda'r nos. Dymunir priodas hapus a dedwydd i'r ddau ohonoch.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Sioned a Gwyn ddiolch i'r ddau deulu, cymdogion a ffrindiau am eu dymuniadau da a phob caredigrwydd. Dymuna Sioned ddiolch yn arbennig i'w mam a'i thad am sicrhau diwrnod bendigedig a bythgofiadwy.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Leslie Larsen a'r teulu ar golli'i frawd annwyl yn ddiweddar.

Dymuna Leslie a'r teulu ddiolch yn fawr i bawb a fynegodd gydymdeimlad ar lafar neu ar gerdyn yn eu colled fawr.

PWYLLGOR NEUADD. Y mae rhagolygon am dywydd braf ym mis Mai a bwriedir cynnal noson o 'Miri Mai' ar ddydd Iau, Mai 10. Bydd gemau, stondinau amrywiol, raffl, paned ac, efallai, Castell Neidio. Dowch i'r Neuadd Gymuned am hwyl.

ARHOLIADAU. Dymunir pob lwc a dymuniad da i bawb ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau o fis Mai ymlaen. Cewch amser i ymlacio a mwynhau wedyn.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

**Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug**

**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau,
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**London House
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!



**CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR**

**Down â fo atoch
a'i nôl wedyn**

Ffôn: 871782

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

**RACCA
PENISARWAUN**

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



**Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro**

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

WYAU PASG. Dymuna plant iau y pentref ddolch i gyfranwyr at y Tynfa Fisol a Phwyllgor y Cae Chwarae am brynu a dosbarthu eu wyau Pasg unwaith eto eleni. CAPEL CAEATHRO. Ysgol Sul pob dydd Sul am 11.00. Disgwylir i'r dodrefn newydd gyrraedd ganol Mai. Cyhoeddir y gwasanaethau eraill yn lleol.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Ebrill oedd: £40: (75) Mai Jones, Crud yr Awel, Rhosbach; £25: (95) Selwyn Hughes, 7 Erw Wen; £15 (84) D. ac E. Cartmel, Brogaredd, Stad Glandwr; £5: (89) D. Roberts., Cefn Rhos Isaf.

ENWAU LLEOEDD A'U HYSTYRON. Yn ôl llyfr Myrddin Fardd ystyr Dolgyfnydd yw naill ai o 'cyf' a 'dydd', y 'd' yn troi i 'n' - cyfnydd, neu o 'cefn' ac 'ydd', fel 'bron' a 'bronydd'. 'Dol-Gyf-nydd' yw Dol Amlwg. Arferir y gair weithiau yn 'Dolgyfnydd' ond dichon mai Dolgyfnydd y dylasai fod,

canyys 'cynfyl' yw mangre genedigol unrhyw un. Yr ystyr felly fyddai 'Dol-gynaer' neu 'Dol Etifedd', neu yn hytrach Dol-y-Cynetifedd.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan, Waunfawr ar 17 Ebrill. Roedd y Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol a'r Cynghorydd Edgar Owen yn y Gadair.

Mae Garej Gwalia wedi ennill ei apêl ar gyfer caniatad cynllunio i oleuo'r arwyddion am 24 awr y diwrnod.

Cytunwyd i'r Urdd gadw cyfraniad y Cyngor ar gyfer Eisteddfod Caerdydd 2001 tan yr un Eisteddfod ym 2002.

Gofynnwyd i'r Syrffewr esbonio paham fod cyflymdra ceir ar y fforddi i Fangor o Gaernarfon wedi ei gyfyngu i 40mya heibio Ferodo (wrth gofio fod Lôn Las Menai ar gael i gerddwyr a beicwyr) ond bod hawl i yrru hyd at 60mya

rhwng Glan Gwna a Gallt y Sil, a dim pafin na glaswellt.

Hefyd bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau fod perchnogion cŵn yn gyfrifol am lanhau baw cŵn oddi ar dir sydd ddim yn perthyn iddynt.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Ceri Roberts, 10 Erw Wen ar ei dyweddïad i Richard Clarke.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR CYMUNED. Bydd gan y

cyhoedd yr hawl i godi pwyntiau a gofyn cwestiynau yng Nghyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned y Waunfawr a gynhelir yng Nghaeathro ar 30 Mai, 2001. Cofiwch y dyddiad a throi allan.

NOSON GOFFI. Bydd Noson Goffi er mwyn codi arian ar gyfer cynnal a chadw'r Capel a'r Fynwent yn 'Y Festri' ar nos Iau, 3 Mai am 7 o'r gloch. Ticedi ar gael wrth y drws. Croeso i bawb.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH i'r ffyddloniaid a ddaeth i blygu rhifyn olaf yr Eco, ac yn arbennig i'r plant. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch a'r plant Gwyn, Blodwen, Meirion ac Eirian ddolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am bob arwydd o gydymdeimlad, y llu cardiau a'r galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd yn eu profedigaeth lem o golli priod, tad, taid a hen daid annwyl. Diolch yn fawr.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gareth a Medi Jones, Dôl Afon yn eu profedigaeth o golli mam Gareth yng Nghaernarfon, nain annwyl Ceri, Dewi a John.

CAPEL Y TABERNACL. Dyma drefn yr oedfaon am fis Mai:

6: Clwb y Plant am 2; Parch Gwynfor Williams am 4.

13: Clwb y Plant am 2, Parch D. Elwyn Edwards am 5.30.

20: Clwb y Plant am 2; Mr J.H. Hughes am 4.

27: Clwb y Plant am 2; Mr Evan Jones am 4.

Diolch i Mrs Williams a Meira, Goleufryn am gael defnyddio'r cae ar gyfer Sul y Gymanfa. Diolch yn fawr.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad

buan i Mrs Beryl Parry, Hebron a Mrs Nellie M. Owen, Glandwr. Mae'r ddwy wedi syrthio a thorri braich.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Ebrill 2. Darllenwyd munudau o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Mawrth a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Sandra Hughes. Trafodwyd rhai materion yn dilyn pwyllgor a gafwyd yn y Felinheli yn ddiweddar. Bydd Gwasanaeth y Ddeoniaeth yn cael ei gynnal ym Methesda ar Fai 17 am 7 o'r gloch.


Ein gwraig wadd oedd Mrs Anne Florendine, cyn lywydd y Ddeoniaeth. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddiam ei chyfnod yn dal y swydd am y chwe blynedd. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Menna Roberts a M/s Sandra Birbeck. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Latham. Diolchwyd i Mrs Florendine ac i'r gwsteion gan Mrs E. Taylor. Terfynwyd y cyfarfod gyda'r Gras.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETH. Bylchwyd y gymuned yn ystod y mis yn ymadawiad y diwedd Mr Elwyn Parry, Gwynfa. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Ers rhai misoedd mae'r ddau adeilad helaeth a berthyn i'r Eglwys wedi bod dan ystyriaeth ddwys ynglŷn â'u defnyddioldeb i'r dyfodol. Yn dilyn archwiliad pensaernïol ar ran y Cyfundeb Presbyteriaidd derbyniodd swyddogion yr Eglwys gyfarwyddiadau manwl gan Henaduriaeth Arfon ar sut i weithredu ar hyn o bryd. Bellach ni ellir defnyddio adeilad y Capel oherwydd diffygion amlwg yn yr adeiladwaith. Bydd y Ffestri yn cael ei defnyddio i gyfarfodydd a gynhelir dan nawdd yr Eglwys Bresbyteriaidd yn unig - oedfaon y Sul, yr Ysgol Sul, Cymdeithas y Capel a chyfarfodydd i drafod dyfodol yr adeiladau. **Mae'n rhaid cadw at y rheol hynod bwysig hon o safbwynt diogelwch y cyhoedd mewn perthynas â'r yswiriant.**

Mae nifer helaeth o gyfarfodydd ymgynghorol ynglŷn â dyfodol yr adeiladau wedi eu cynnal ers canlyniadau yr archwiliad er ceisio diogelu cartref

yr Achos a sicrhau man cyfarfod i'r gymuned yn y dyfodol. Bydd y trafodaethau yn dwysau gydol y flwyddyn hon ac mae'n amlwg fod rhaid cael cefnogaeth y Gymuned gyfan os ydym am sicrhau canolfan aml-bwrpas fydd yn gwasanaethu'r gymdeithas leol yn effeithiol.

Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas am y flwyddyn 2001 yn y Ffestri nos Iau, Ebrill 5. Estynnwyd croeso i'r aelodau ar ddechrau tymor newydd gan y Llywydd, Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Arweinwyd yn y myfyrdod ar Sul y Palmwydd gan Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian. Cadeirydd y noson oedd Mrs Lowri Roberts Williams a chyflwynodd i'r aelodau westai y noson, Mrs Annette Bryn Parri, Deiniolen. Yn ei chwmi, cafwyd gwir fwynhad wrth iddi rannu ei phrofiadau gydol ei gyfa gerddorol a'r cyfan wedi ei blethu i ddatganiadau amrywiol ar y piano. Cafwyd gair o werthfawrogiad gan y Cadeirydd a thalwyd diolchiadau gwresog ar ran y Gymdeithas gan y Llywydd. Trefnwyd lluniaeth gan Mrs Euronwy Roberts a Mrs Helen Morris. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 10 yng nghwmni Mrs Thita Owen.

CYFLWYNIADAU. Ar derfyn



Mr R.W. Evans, Mrs L.P. Roberts Williams, Mrs J.A. Roberts a Mr G.H. Jones

cyfarfod y Gymdeithas nos Iau, Ebrill 5, dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones cyfeiriwyd at ddathliad diwedd Mr Richard Wyn Evans fel blaenor yn yr Eglwys am hanner can mlynedd yn ogystal â chyfraniad Mrs Lowri Roberts Williams i ganiadaeth y cysegr ers deugain mlynedd. Cafwyd gair o werthfawrogiad am eu gwasanaeth gan Mrs Jennie Angharad Roberts ac, ar ran ei chyd-flaenoriaid, cyflwynodd iddynt gopi cain o Caneuon Ffydd i ddathlu'r ddau achlysur.

Ymhellach cyflwynwyd Argraffiad Organ o Caneuon Ffydd i'r Eglwys gan Mrs Lowri Roberts Williams er cof am ei rhieni ac fel arwydd o'i gwerthfawrogiad o gyfraniad y

cynulleidfaoedd a'r plant dros y blynyddoedd i ganiadaeth y cysegr ym Mrynrefail.

GWASANAETHAU MIS MAI.

6: Cymanfa Dosbarth Padarn.

13: Mr Meirion Evans, Lerpwl am 5.30.

20: Mrs G. Alwena Williams, Llanddona am 5.30.

27: Mr R. Lloyd Jones, Bethel am 5.30.

PLYGU'R ECO. Dalier sylw mai yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo y gwneir y gwaith o blygu'r Eco eleni trwy garedigrwydd y Brifathrawes, Mrs Mair Huws. Gobeithio y ceir yr un gefnogaeth ag arfer i'r gwaith er fod y lleoliad wedi newid. Cofiwch y dyddiad - nos Iau, Mai 31.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cafodd y Cyngor sicrwydd gan Adran Amgylchedd Gwynedd nad oedd ansawdd dŵr Llyn Padarn yn achosi unrhyw bryder ar hyn o bryd. Roedd y Cyngor wedi gwneud ymholiadau oherwydd fod yr 'Iron Man Competition' i'w gynnal ar y llyn ym mis Medi.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Syrfeur y Sir yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y Cyngor yn sylweddoli bod angen ystyried y posibilrwydd o rannu ceir a sefydlu math o 'park and ride' oherwydd y dylifant trafniadau i mewn ac allan o'r trefi. Datganwyd fod yr Adran Drafniadau yn gweithredu adolygiad Gwerth Gorau am feysydd parcio ar hyn o bryd ac y byddid yn bwydo awgrymiad y Cyngor i mewn i'r broses.

Eglurodd y clerc iddo sicrhau o'r diwedd i'r lampau ger y Llythyrdy Penisarwaun gael eu hadnewyddu.

Cafwyd manylion ynglŷn ag oriau agor y Llyfrgell yn Neiniolen. Doedd yna ddim gwrthwynebiad i'r trefniadau.

Oherwydd y clwy traed a'r genau yn naturiol roedd pob llwybr cyhoeddus o fewn y plwy ar gau, a hyd y gwelid roedd arwyddion wedi eu gosod ar bob llwybr.

Siom i'r Cyngor oedd cael ar ddeall food y fainc a osodwyd i ddathlu'r milflwydd yn y cae chwarae ym Mrynrefail wedi cael ei dinistrio'n llwyr.

Cafwyd nifer o gwynion ynglŷn ag ymddygiad plant a phobl ifanc yn Neiniolen a hefyd y sarhad a geir wrth geisio eu darbwyllo i fyhafio.

Bydd Eurwyn Griffith, Swyddog Ad-fywio Bro yn dod i gyfarfod nesa'r Cyngor ar Fai 1 i drafod Cynllun Cwlwm Gwledig.

Penodwyd Mr John B. Jones, Ceris, Deiniolen fel olynydd i Mr Selwyn Griffith, Clerc y Cyngor sy'n ymddeol ar ôl 46 mlynedd o wasanaeth. Gobeithir y bydd Mr Jones yn dechrau ar ei ddyletswyddau ym mis Mehefin.

Cytunwyd i ymaelodi â Chymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru.

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161

STEPHEN JONES

✦ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

Cymdeithas Y Plant (The Children's Society)

Ymwelwyr annibynnol

Oes gennych ddi-ddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?

Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a pobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth. Os oes gennych ddi-ddordeb:

Cysylltwch a ni yma ar **0800 085 2274**



Pobl Mewn Cymunedau - Gwaun Gynfi

Diwedd y cyfnod cyntaf

Yn 1998 gwahoddwyd awdurdodau lleol yng Nghymru i enwebu un gymuned i gael eu hystyried ar gyfer rhaglen Pobl Mewn Cymunedau. Roedd y rhaglen yma yn elfen graidd o strategaeth y Swyddfa Gymreig i daclo cynhwysiad cymdeithasol. Rhoddwyd cais ymlaen gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Ardal Deiniolen, Dinorwig a Chlwt-y-bont (Gwaun Gynfi). Fe lwyddodd y cais hwnnw.

Seiliwyd y cais ar Gynllun Gweithredu Cymunedol a luniwyd gan Gymdeithas Adfywio Deiniolen gydag amlinelliaid o strategaeth ar gyfer ardal Deiniolen. Nodwyd bod y Cynllun yn cael ei weld yng nghyd-destun Strategaeth Ardaloedd Llechi a Chynllun Adfywio Bro Cyngor Gwynedd. Agweddau ffisegol a gweladwy oedd y mwyaf amlwg yn y Cynlluniau hyn ac fe gytunwyd bod agweddau dyfnach ynghlwm wrth anghenion y trigolion megis hyfforddiant, hunan-hyder, ysbryd cymunedol, a.y.y.b.

Penodwyd Mair Owen am gyfnod o ddwy flynedd o Ionawr 1, 1999 fel Cyd-lynnydd y Prosiect yn yr ardal. Gweler yn y Tabl yr arian a gafwyd yn y flwyddyn gyntaf tuag at sefydlu'r prosiect o'r Swyddfa Gymreig. Roedd disgwyl i'r Cyngor dalu costau cydlynw yn yr ail flwyddyn. Fe leolwyd y Cyd-lynnydd oddi fewn i Adran y Prif Weithredwr, gyda Swyddfa Weithredol yn Llyfrgell Carnegie yn Neiniolen.

Prif nod y cynllun arbrolf yma oedd i ddangos ym mha ffordd y gallasai cymuned difreintiedig lwyddo i ddatblygu trwy:

weithrediad integredig yn seiliedig ar Gynllun Strategol wedi ei gytuno a gyda chyfraniad llawn y gymuned; gael y budd gorau allan o

CYNLLUN/PROSIECT	CAIS ARIANNOL
Swydd a chostau Cyd-lynnydd Datblygu Cymunedol a chostau'r Bwrdd	£30,000.00
Cyfeiriad at Ran 2 o addasiad 'Manchester House' fel Canolfan Adnoddau	£40,000.00
Maes Parcio Canolfan Adnoddau	£10,000.00
Cymorth refeniw ar gyfer Canolfannau Adnoddau a Gwasanaethau Cyngori	£9,500.00
Cyrsiau medrau llythrennedd	£1,500.00
Astudiaeth dichonoldeb gofal plant	£5,000.00
CYFANSWM	£96,000.00

arian llywodraeth ganol a lleol; ddyllanwadu ar y math o ddarpariaeth sydd yn yr ardal.

Roedd y rhaglen yn canolbwyntio yn bennaf ar yr egwyddorion canlynol:

mynediad at waith, hyfforddiant neu addysg; lle diogel a chysurus i fyw ynddo;

y gallu i fyw bywyd iach a mynediad at wasanaethau ieuchyd;

llefydd chwarae diogel a chyfleoedd addysg a chwarae addas.

Mae'r Cynllun yma yn elfen ganolog o Strategaeth y Cynulliad erbyn hyn i geisio ffyrdd newydd o edrych ar adfywio cymunedau sydd wedi gweld methiant hyd yma mewn cydblethu agweddau cymdeithasol gyda gwelliannau ffisegol.

Dyma oedd disgwyliadau bras rol y Cyd-lynnydd er mwyn arwain a hyrwyddo'r broses:

Cynnal awdit gymdeithasol a phroffil o adnoddau yn y gymuned a'r anghenion i'r dyfodol;

Gwneud arolwg ac asesiad o brif wendidau a bylchau mewn gwasanaethau craidd prif asiantaethau;

Adnabod anghenion tymor byr yn y gymuned ac yna ceisio adnabod cyllidebau neu weithrediad i oresgyn yr anghenion,

Helpu'r gymuned i ddatblygu cynllun gweithredu a chael mynediad at adnoddau a chyllidebau llywodraeth ganol, lleol, Ewrop a'r sector breifat i wireddu'r anghenion Hyrwyddo datblygu sgiliau i'r gymuned - gwybodaeth, profiad a hyder.

Er mwyn cefnogi'r Cyd-lynnydd yn ei rol roedd disgwyliad i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Lleol yn tynnu ar arbenigedd pobl allweddol yn y gymuned, gan gynnwys pobl oedd yn byw yn yr ardal, Cyngor Gwynedd, y Sector Wirfoddol a'r sector breifat.

Sefydlwyd y Bwrdd Partneriaeth ac fe drefnwyd iddo gyfarfod pob mis er mwyn hybu'r broses o gynllunio cymunedol, i adnabod rhaglen waith, goresgyn problemau a rhoi cyfeiriad i'r gwaith. Cadeiriwyd y cyfarfodydd cychwynnol gan y Cyd-lynnydd ond fe gytunwyd y dylai'r Bwrdd enwebu cadeirydd a fyddai mor annibynnol â phosibl. Enwebwyd Mr John Fazey, Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor i gadeirio'r Bwrdd.

Nodwyd ar ddechrau'r prosiect mai'r Bwrdd Partneriaeth dros dro oedd y sefydliad cychwynnol, gyda'r nod o gael mwy a mwy o gyfraniad oddi wrth aelodau craidd o'r cymunedau eu hunain a'r rhieny sydd yn draddodiadol yn methu, neu'n dewis peidio, cyfrannu at ddatblygu'r cymunedau. Mae'n

rhaid cydnabod bod hyn yn broses anodd, tymor hir ac sydd angen gweithrediad pendant i annog ac i ddatblygu hyder er mwyn cael trawsdoriad teg o'r gymuned.

Cydnabyddwyd mai un o'r ffyrdd gorau o gael cyfraniadau a mewnbwn cymunedol oedd trwy grwpiau tasg penodol yn ymwneud gydag agweddau datblygol.

Derbyniodd y Bwrdd Partneriaeth Dros Dro sawl ffynhonnell gwybodaeth a dadansoddiad anghenion i helpu'r broses cynllunio. Y prif asesiadau a dogfennaeth cychwynnol:

Strategaeth Ardal y Llechen - 1998

Astudiaeth Anghenion Adnewyddu Tai yn Neiniolen - 1998

Strategaeth Deiniolen a Chlwt-y-bont a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Adfywio Deiniolen.

Wrth dynnu ar y casgliad uchod, ac o'r gwaith gyda grwpiau ffocws, dadansodwyd a chynlluniwyd i weithredu ar yr agweddau canlynol:

Cyfathrebu;

Mynediad at wasanaethau fyddai'n Gwella Iechyd a Llës;

Grwpiau Hamdden ac Ymarfer ar draws yr oeddrannau;

Darpariaeth i Bobl Ifanc;

Cyfleon Cyflogaeth;

Busnesau - newydd a 'thyfu' rhai creiddiol;

Cyfleusterau Cymunedol a'r Amgylchedd;

Mynediad at wybodaeth a chynghor.

Bu sawl ffactor dylanwadol iawn wrth geisio gwiredau amcanion y math yma o gynllun. Ni ddylid tanbwysleisio ffactorau o'r math ar gyfer y dyfodol. Wrth gynllunio i weithredu'r prosiect, ystyriwyd dalgylch Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi fel ffin weithredol ond nid yw'n ymddangos yn gymuned naturiol. Fel cynallyniad, er mai ardal o boblogaeth isel yw, mae ceisio cynllunio ar sail un gymuned wedi ymddangos yn

parhad ar dudalen 14

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar **675190 / 673188**

antur WAUNFAWR

Gwyl Fai

Llun, 7fed Mai, 2.00 y pnawn

dewch i weld Siop Bryn Pistyll ar ei newydd wedd,
sioe bypedau, crefftwyr a llawer mwy

dathliad amgylcheddol a chymunedol

01286 650 721
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DIOLCH. Dymuna Arthur a Meira, 17 Rhydfadog ddiolch i'w plant, teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, yr anrhegion a'r blodau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur. Diolch yn fawr.

CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun, Ebrill 2 gyda Mrs Rosina Worth yn arwain. Croesawyd y wraig wadd am y noson, sef Mrs Theta Owen o Fynydd Llandygai. Cafwyd noson bleserus yn ei gwyllo yn arddangos dulliau o drefnu blodau. Diolchwyd i Theta gan Miss Jean Moeller. Enillwyd y raffl o drefniant blodau oedd Mrs Gwen Griffiths a Mrs Gracie Tate. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Mai 9 a'r gŵr gwadd fydd Mr Rol Williams, Waunfawr. Croeso cynnes i bawb.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd y Swper Gŵyl Ddewi yn Antur Waunfawr nos Lun, Mawrth 19. Cafwyd swper ardderchog yn yr Antur, bwyd cartref i gyd, a chaed croeso arbennig gan y staff. Cawsom ein diddanu gan Elfed Morris, Llechwedd a'i ddwy nith, Manon a Ffion. Gwledd arall yn wir - caneuon gwerin a chaneuon modern a'r canu o'r radd flaenaf.

Diolchwyd i bawb am noson arbennig o dda gan Marian Williams, y Llywydd
Y GYMDEITHAS LENYDDOL.
Nos Lun, Mawrth 26 cynhaliwyd

cyfarfod olaf y Gymdeithas am eleni. Y Llywydd oedd Mrs Jane Jones ac estynnwyd croeso cynnes i'r gŵr gwadd, y Parch Tegid Roberts. Soniodd ef am ei waith yn y Gadeirlan ym Mangor, ef yw cysylltydd plant yr Esgobaeth ac mae hefyd yn is-Ganon yn y Gadeirlan. Daeth ag amryw o adnoddau i'w dangos i ni a mwynhawyd ei sgwrs yn fawr iawn.

YSGOL GWAUN GYNFI
TYNNU LLUNIAU. Tynnwyd lluniau plant yr Ysgol a'r fro gan Mr J.C. Davies ar Ebrill 3.

TY CRWN FACHWEN. Bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn ymweld â'r Tŷ Crwn yn Fachwen ar ddydd Gwener, Chwefror 9. Tŷ wedi ei adeiladu fel y rhai oedd yn oes y Celtiaid ydyw a chafodd y plant sgoriau gan Mr Eric Maddern i mewn yn y tŷ crwn o gwmpas y tân.

CLWY'R TRAED A'R GENAU. Mae amryw o weithgareddau yn ymwneud â'r Ysgol wedi eu gohirio o achos yr argyfwng yma. Un o'r achlysuron oedd Noson o Ddawns yn Theatr Gwynedd a oedd i'w gynnal ar Mawrth 14 ond mae'r plant yn dal i ymarfer gan obeithio y cânt gyfle i berfformio yno yn hwyrach ymlaen.

CLYBIAU LLYFRAU. Carwn ddiolch i'r plant a'r rhieni sy'n archebu o'r clybiau llyfrau Saesneg a Chymraeg. Mae'r Ysgol yn derbyn 20% o'r gwerthiant o'r clwb llyfrau Saesneg a 10% o'r clwb llyfrau Cymraeg.

ARIAN ELUSENNAU. Casglwyd £453.26 at NSPCC a £100 at Ddiwrnod y Trwynau Coch. Diolch yn fawr iawn i bawb.

TOCYNNAU. Mae'r Ysgol yn casglu tocynnau 'Do It All', Tesco a Walkers Crisps.

Erbyn hyn rydym wedi derbyn £1,800 wrth gasglu tocynnau Do It All ac mae'r arian wedi mynd tuag at gostau tri cyfrifiadur newydd.

Rydym angen digon i archebu camera digidol i'r Ysgol wrth gasglu tocynnau Tesco. Daliwch ati.

Rydym wedi derbyn 32 o lyfrau yr wythnos yma gyda chymorth tocynnau Walkers. Bydd y tocynnau ar gael tan Fehefin. Daliwch ati i gasglu'r rhain hefyd

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r aelodau yn Ffestri Cysegr y mis yma dan lywyddiaeth Glenys Griffiths. Dymunwyd yn dda i Martin, gŵr Margaret Eckley, ac i David, gŵr Margaret Williams, y naill wedi derbyn llawdriniaeth a'r llall yn disgwyl triniaeth. Datganwyd siom fod y Swper Gŵyl Ddewi wedi gorfod cael ei ganslo, ond roedd pawb yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cydymdeimlo'n fawr â'r ffermwyr yn ystod yr argyfwng presennol. Trafodwyd nifer o etiemau rhanbarthol a chenedlaethol cyn cyflwyno'r wraig wadd, sef Sian Summers, cyn Gyfarwyddwraig Artistig Theatr Gwynedd, Bangor. Cafwyd ganddi sgwrs hynod o ddodderol a chartrefol yn sôn am y ffordd y daeth i ymddiddori ym myd y ddrama, actio a sgriptio. Mae hi ar hyn o bryd yn gweithio

gyda chynhyrchiad newydd, sef *Bingo!* ar gyfer perfformiadau yn Theatr Gwynedd.

Diolchwyd iddi gan Rhian Hughes. Eirlys Sharpe enillodd y raffl ac Anne Elis, Gwyneth Jones a Rita Williams oedd yng ngofal y baned.

Swyddog o Heddlu Gogledd Cymru fydd y siaradwr y tro nesaf. DIOLCH. Dymuna Mrs Ann Parry, 3 Y Rhos ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd yn ddiweddar tra bu yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref.

**Peidiwch gori
ar stori.
Anfonwch hi i'r Eco**

os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr i bawb am gefnogi.

AROLYGU'R YSGOL. Bydd Arolygwyr yn ymweld â'r Ysgol yn ystod tymor yr Hydref 2001.

LLEFRITH AM DDIM. Ar ôl gwyliau'r Pasg bydd plant CA1 i gyd yn cael llefrith am ddim o dan Gynllun Cymhorthdal Llefrith Ysgol y Gymuned Ewropeaidd.

NOFIO. Bu plant dosbarth Mrs Down yn nofio y tymor yma a bydd dosbarth Mr Parry a'r Uned yn mynd y tymor nesaf.

GWEITHDY CELTAIDD. Bu Mr

Steven Attwell yn cynnal Gweithdy Celtaidd gyda phlant Cyfnod Allweddol 2 ar Chwefror 14. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn yn cael cymryd rhan mewn drama a chanu.

GWYLIAU'R YSGOL. Bydd yr ysgol ar gau ddydd Llun, Mai 7 oherwydd gŵyl y banc Calan Mai. Bydd gwyliau hanner tymor yn ystod yr wythnos Mai 28 hyd Fehefin 1. a bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r haf ddydd Gwener, Gorffennaf 20 ac yn ail agor ddydd Mawrth, Medi 4, 2001.

**Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?**

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

H. E. HUGHES A'I FEIBION

**Bwthyn Gadlys
LLANBERIS**

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI**

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

John Owen Huws

parhad o dudalen 3

amser i gyflawni cynifer o dasgau. Roedd ganddo, fe wyddom, ddiddordebau allanol a fyddai yn foddion iddo ymlacio, fel pysgota a mynydda a chafodd gyfle i wireddu ei freuddwyd drwy ymweld â mynyddoedd Nepal.

Mae'n anodd dod i arfer â cholli John ac o'r herwydd bydd y bwlch a adewir yn hanes llên gwerin Cymru yn enfawr. Yr oedd y maes arbennig yma nid yn unig yn waith dyddiol iddo ond yn bleser a boddhad yn ogystal. Teimlai ecstasi rhyw wawr newydd yn torri'n ddyddiol i ddenu ei sylw a'i ymchwil ac fe wna'i hynny gyda graen ac ymroddiad llwyr, gyda dyfalbarhad hynod o engiol a phob amser gyda phleser a gwên ar ei wyneb.

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig y bu i mi sgwrsio am y tro olaf a John a hynny ar y ffôn yn trafod, ymysg amryw bynciau, y ffaith i briod Syr John Rhys honni iddi weld y Tylwyth Teg yn dawnsio yng Ngwaun Cwm Brwynog, pan yn blentyn. Cytuno i anghytuno a wnaethom ar y pwnc 'dadleuol' hwnnw!

Cydymdeimlir yn fawr gyda'i deulu, ei briod, ei blant, ei dad Gwilym a'i chwaer Iris yn y brofedigaeth o golli un a oedd, er cymaint ei gyfraniad - a erys yn gofeb iddo - wedi addo llawer, llawer mwy.

Rol Williams

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Pobl Mewn Cymunedau - Gwaun Gynfi

parhad o dud. 12

anodd gan yn wir bod tair cymuned - Deiniolen, Clwt-y-bont a Dinorwig - yn bodoli yno. Crea hyn yr angen am wario cryn amser yn ceisio dod a'r cymunedau at ei gilydd i gynllunio, yn arbennig ar gyfer cytuno ar raglenni bidiau ariannol.

Roedd ardal Dinorwig yn ei gweld ei hun yn fwy ynysig o weddill yr ardaloedd ac, o galnyniad, pwysig oedd i'r cydlynnydd ganolbwyntio ar waith penodol yno i ddod a rhannau o'r gymuned at ei gilydd, gan gynnwys grwpiau cynhenid. Cymerai amser i wneud hyn ac nid gwaith hawdd o gwbl yw ceisio lleihau tensiynau sydd oddi fewn i gymunedau er mwyn hyrwyddo datblygiad pellach.

Gellir crynhoi prif amcanion y Bwrdd Partneriaeth yn y Cynllun Strategol fel a ganlyn:

1. Sefydlu'r Bwrdd yn gwbl gynrychioladol a chyda Strategaeth gyflawn ar gyfer y blynyddoedd i ddod - wedi ei seilio ar lwyddiannau a phrosiectau dros dro;
2. Gwellu iechyd ac ansawdd bywyd gyda mynediad at wybodaeth a chyfleusterau iechyd;
3. Gwellu mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth drwy hyfforddiant lleol a mynediad at ddysgu o bell;
4. Parhau i wella'r amgylchedd ffisegol a chymdeithasol;

5. Parhau i ddatblygu'r hyder cymunedol a chefnogi grwpiau megis grwpiau'r ifanc;

6. Sefydlu agwedd holistaidd tuag at wasanaethau i'r teulu ac yn arbennig gwasanaeth pobl ifanc a'r henoed.

Sefydlwyd Rhaglen Waith, targedau a dangosyddion perfformiad penodol ar gyfer pob un o'r amcanion uchod a rhoddwyd rhai fel rhan o'r Cynllun Strategol o dan gyfrifoldeb y Bwrdd Partneriaeth. Bydd y Bwrdd Dros Dro yn trosglwyddo'r Strategaeth yma ym mis Mai 2001 i'r Bwrdd ymestynedig. Bydd gan y Bwrdd hwn gyfrifoldebau am wireddu'r rhaglen waith ac unrhyw brosiectau penodol ynghlwm â'r rhaglen waith.

Yn ystod cyfnod y prosiect cafwyd hawl i ymgeisio am arian ychwanegol ar gyfer gwireddu unrhyw brosiectau penodol oedd yn deillio o anghenion cymuned prosiect Pobl Mewn Cymunedau.

Daeth yr arian o ddwy ffynhonnell, sef arian Pobl Mewn Cymunedau Rhan 2 ac yna arian o ffynhonnell Cymunedau Cynladwy, oedd yn canolbwyntio'n fwy penodol ar agweddau mwy hir dymor ac yn plethu gyda gwaith amgylcheddol a ffisegol tai.

Mae gwaith y Cydlynnydd, arwain prosiectau penodol a gweithrediad oddi fewn i'r gymuned gan grwpiau ac unigolion wedi arwain at sicrhau fod gwariant o £268,000 ar y cynlluniau uchod ar ben y £96,000 gwreiddiol trwy'r Cynulliad, a £37,000 arall o goffrau Cyngor Gwynedd. CYFANSWM o £400,000 dros bedair blynedd.

...Ac Ymlaen i'r Cyfnod Nesaf

Bydd Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd ar ran y Bwrdd dros dro, yn gwahodd unigolion ar ran y gymuned i ymuno â'r Bwrdd Newydd - *Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Gwaun Gynfi*. Eisoes mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen wedi derbyn cais i enwebu aelodau o'r tair ward yng Ngwaun Gynfi a Chwmni Adfywio Bro Deiniolen i enwebu un aelod. Bydd un o gynghorwyr Cyngor Gwynedd ar y Bwrdd. Gweddill yr aelodau fydd cynrychiolwyr o fudiadau a chymdeithasau sy'n weithgar yn yr ardal - yn arbennig rhai sydd wedi elwa o fuddsoddiadau cyhoeddus yn ddiweddar - y Band, yr Ysgol Feithrin, Cymdeithas Tenantiaid Pentre Helen a phobl ifanc yr ardal. Hefyd bydd y Bwrdd newydd yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr o fudiadau a chymdeithasau eraill gwrdd a sicrhau ym mha ffyrdd eraill y gall y cymunedau elwa eto trwy'r Bwrdd Partneriaeth.

Pe bai cymdeithas, mudiad neu unigolyn yn awyddus i dderbyn gwahoddiad i ymuno â Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Gwaun Gynfi, gellir cysylltu â:

Clive James, Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Ffôn (01286) 679501; Ffacs: (01286) 679488; ebost: clive@gwynedd.gov.uk.

Trwy'r un cysylltiad gellir derbyn copi o'r adroddiad monitro ar gynllun Pobl Mewn Cymunedau a ystyriwyd gan Bwyllgor Dethol Llës a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a chopi o Gynllun Strategol Gweithredol ar gyfer ardal Gwaun Gynfi.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

PRYD I BAWB

Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON
(01286) 673190



Llosgi

Gwelaf ar ddu ffurfafen - yr uffern,
Yr effaith a'r angen.
A llwch gwae hyd gae yn gen
Hen gorff cefn gwlad 'di gorffen.

R. Ll. J.


**Peidiwch gori ar stori.
Anfonwch hi i'r Eco**

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

Bob nos Fercher tra bod effaith y Clwy Traed a'r Genau'n
parhau: **2 BRIF GWRS** am **BRIS Y PRYD DRYTAF**
Mwyafrif o 6 ar gyfer pob bwcin

CROESAIR MAI



1 a 7 ar draws (11, 5) ydi 23, 28, 35 a 38 ar draws ac 13 a 38 i lawr

AR DRAWS

- 10 1 ar draws ifanc sy'n byw ar y fferm (5)
- 11 Nid yw ffyliaid yn hoffi dechrau hwn (5)
- 12 Dŵr yn gorlifo (5)
- 17 1 ar draws ifanc a welir ar lethrau'r mynydd (3)
- 18 Safle'r tori ar y cae pêl-droed? (5,2)
- 19 Rhan miniog cylllell y môr-leidr (3)
- 22 Bendithio neu wneud arwydd y Groes (8)
- 24 Cytuno (8)
- 25 Un sy'n rhoi trwy ewyllys (8)
- 27 Yr anrheg cyntaf a roddwyd i'r baban Iesu (3)
- 29 1 ar draws ifanc sydd hefyd yn byw ar y fferm (3)
- 37 Pryf genwair (5)
- 40 Tynnu neu fwrw allan (5)
- 41 Cyfnodau dros y Sul (11)

I LAWR

- 1 Gall y wrach fod yn odidog (5)
- 2 Yr Arglwydd (3)
- 3 Aderyn sy'n enwog am ei gân swynol (3)
- 4 Poen canol oes? (4)
- 5 Miss! (7)
- 6 Gwneud yn ddall (4)
- 7 Gwisg y meirw (4)
- 8 Ebychiad o Fryn Awelon! (3)
- 9 Lle agored mewn tref neu bentref (5)
- 14 Pabell addoli yr Iddewon? (9)
- 15 Mesurydd gwres (9)
- 16 Yn berthnasol i deulu mynachaid (9)
- 20 Nid anifail o'r coed, ond rhywbeth a roir am goler ceffyl (5)
- 21 Nwyf o Baris? (5)

- 26 Rhodd ddirgel o arian (3-4)
- 30 Materion ariannol tranc y llidfrwydr (5)
- 31 Cychod (5)
- 32 Llinyn o gotwm (5)
- 33 Llestr i oleuo (4)
- 34 Bwlch (4)
- 36 Nod pob pêl-droediwr (3)
- 39 Yr ail anrheg i'r Iesu ei dderbyn (3)

Derbyniais saith ar hugain o atebion i groesair mis Mawrth gan Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E.E. Jones, Rhoshirwaun; M.P. Jones, Jennie Williams a Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Gwen Davies, Y Wirral; Eluned Jones, Trefor; Olwen Owen, Moreen Lennon a Nan Owen, Llanberis; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Nansi Davies, Rhuthun; A.W. Roberts, Brynsiencyn; Rosemary Williams ac E.E. Roberts, Tregarth; Eirian Roberts a Ceridwen Williams, Llanrug; Mabel Parry ac I. Jones, Porthmadog; N. Hughes, Cwm-y-glo; Vera Roberts, Caeathro; David Elwyn Williams, Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Pencaerau, Rhiw ac Elfed Evans, Llanllechid. Enillydd y mis ydi I. Jones, Ael y Mynydd, Borth-y-gest, Porthmadog. Llongyfarchiadau a £5 i chi. Ar ôl cwblhau croesair mis Mai, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Mai 21.

CALENDER MIS EBRILL

- 1 Maw:** **PENISARWAUN.** Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn Ysgol Penisarwaun
- 3 Iau:** **CAEATHRO.** Noson Goffi er budd cynnal a chadw'r capel a'r fynwent yn 'Y Festri' am 7 o'r gloch
- 6 Sul:** Cymanfa Presbyteriaid Dosbarth Padarn yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen am 2 a 6 o'r gloch
- 7 Llun:** **WAUNFAWR.** Gŵyl Fai yn yr Antur am 2 o'r gloch
- 9 Mer:** **DEINIOLEN.** Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist Llandinorwig yng nghwmni Mr Rol Williams, Waunfawr
- 10 Iau:** **PENISARWAUN.** 'Miri Mai' yn y Neuadd Gymuned **BRYNREFAIL.** Y Gymdeithas Lenyddol yng nghwmni Mrs Theta Owen
- 12 Sad:** Merched y Wawr. Gŵyl Wanwyn ym Mangor
- 15 Maw:** Gwasanaeth y Ddeoniaeth ym Methesda am 7 o'r gloch
- 16 Mer:** **LLANRUG.** Taith gerdded nodedig er budd Eglwys Sant Mihangel am 6 o'r gloch o Hafan Elan
- 21 Llun:** **DEINIOLEN.** Merched y Wawr, Trefnu Blodau
- 30 Mer:** **CAEATHRO.** Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Cymuned Waunfawr yng Nghaeathro
- 31 Iau:** **BRYNREFAIL.** Plygu'r Eco yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo

RHODDION

£16: Mr P.W. Williams, Corby.

£11: Mrs Olwen Ebbrell, Coventry; Mr R.W. Roberts, Blaenau Ffestiniog.

£10: Mr George Lovatt, Aberystwyth. Mr Leslie Roberts, Hafod, Deiniolen er cof am ei ddiweddar wraig, Mrs Peggy Roberts; Mrs Menai Jones, Sycharth, Llanrug; Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch, Cwm-y-glo.

£6: Mrs G. McCarthy, Lerpwl; Mr J. Evans Hughes, Leicester; Miss Helen Munro, Llanrug.

£5: Mr Meurig Owen, Lewisham; Mrs B. Williams,

County Durham; Mr Geraint Huws Roberts, Bangor; Mr a Mrs Owen Jones, Llangefni; Mrs Menna Byrne, Aberhonddu. Arthur a Meira Roberts, 17 Rhydfadog, Deiniolen; Pat a Leslie Larsen a'r teulu, Llygad yr Haul, Penisarwaun; Mrs Betty Peris Roberts, Dinorwig; Mrs Mamie Parry, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mr Percy Jones, Y Berllan, Llanberis.

£4: Ysgol Gwaun Gynfi. Mrs Norman Pritchard, 31 Harewood, Astley Village.

£3: Mrs M.E. Edwards, Stone; Miss M. Griffith, Caerhun; Mrs Lena Lee, Morfa Bychan; Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Heulwen, Lowri Rhys ac Elin, Argoed, Waunfawr.

£2: Mrs Ann Parry, 3 Y Rhos, Bethel.

£1: Mrs A. Jones, Prestatyn; Mr Goronwy Owen, Porthcawl; Mr E. Rowlands, Ellesmere Port; Mr Ronnie 'Llanbabs' Williams, Leicester; Di-enw; Di-enw eto; Mr Alun T. Williams, Waunfawr.



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

CHWARAEON

Elwa – Ar Sawl Lefel



Gareth Jones gyda'i dystysgrif

Bu twf poblogrwydd rygbi yn yr ardal yma'n syfrdanol yn y blynyddoedd diwethaf. Trwy ymdrech clybiau Caernarfon a Bangor, mae plant lleol yn cystadlu'n gyson yn yr oedranau dan 8, 9, a 12 cyn mentro i'r cynghreiriau ieuencid.

Un sydd wedi elwa yw John Gareth Jones, 9 oed o Goed y Glyn, Llanberis. Ers pedair blynedd bu'n mynychu clwb Bangor ac erbyn hyn, ef yw bachwr tîm dan 9 clwb Cae Milltir. Y mae Gareth yn llythrennol 'fyw' y gêm. Nid yw'n bodloni ar ei gêm wythnosol a'r sesiwn ymarfer: ar y Sadwrn mae'n aelod o'r tîm 'oddi ar y cae' yn ystod gemau'r tîm cyntaf.

Ef sy'n cludo'r 'tee cicio' i'r maes, ef sy'n gyfrifol am y fflagiau cornel a hefyd am osod y crysau allan cyn y gêm. Gorchwylion bychain yw'r rhain ond eto elfennau sy'n rhoi sylw i'r unigolyn. Mae'r fath dasgau ynghlwm â'r gêm wedi rhoi tipyn o hunan hyder i Gareth, sy'n dioddef o anabledd addysgol. Mae'n boblogaidd iawn tu fewn i'r clwb, yn Ysgol Dolbadarn a'r uned addysgol yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Yn dilyn y datblygiad pwysig yma – yn bersonol ac yn ei chwarae – enwebwyd Gareth, neu 'Gags' gan glwb Bangor am anrhydedd arbennig iawn.

Mae Undeb Rybgi Cymru yn ceisio gwella delwedd y gêm gan ei gwneud yn atyniadol i ieuencid. Cyflwynir gwobr 'Chwarae Teg' sy'n gwobrwyo chwaraewyr neu aelodau clwb o unrhyw oed sy'n adlewyrchu agweddau gorau y gêm. Enillwyd y dystysgrifau am fis Chwefror gan Gareth. Fel rhan o'r wobr bydd yn ymweld â Stadiwm y Mileniwm i wyllo rownd derfynol Cwpan y Principality rhwng Castellnedd a Chasnewydd. Nid yw'r stadiwm ysblenydd yn ddieithr iddo gan iddo fynychu 20 gêm rhyngwladol yno eisoes. Yn

anffodus, ni fydd ei hoff dîm – Abertawe – yn y rownd derfynol wedi perfformiad arwrol Duon Castellnedd yn curo'r 'gwynion'.

I Lanelli yr edrycha Gareth am ei hoff chwaraewr – y cawr Scott Quinnell. Ddwy flynedd yn ôl cyfarfu Gareth â'r brodyr Quinnell, Scott a Craig, cyn gêm Cymru a'r Ariannin ar Barc y Strade. Gwefr i Gareth oedd croesawu'r ddau i'w faes ef ym Mangor pan ymwelodd carfan Cymru â'r gogledd cyn cystadleuaeth Cwpan y Byd.

Wrth longyfarch Gareth, a'r clwb am eu rhan yn y llwyddiant, braf cofnodi hefyd bod sawl ffordd i fesur llwyddiant ym myd y campau – ar wahan i fedalau a thlysau!

Apêl y Gynghrair

Tynnwyd fy sylw yn ddiweddar at apêl Cynghrair Caernarfon am fwy o glybiau y tymor nesaf. Dyma gynghrair agos at fy nghalon a thrist meddwl mai dim ond un tîm – ail dîm Llanrug – sy'n cynrychioli hen gadarnle pêl-droed yma ym mro'r Eco. Yn llyfr Arwel Jones yn cronicle hanes y Darans, ceir cyfeiriadau at amseroedd llwm o'r blaen yn hanes y gynghrair. Gwir fod nifer o glybiau traddodiadol wedi symud i 'fyny' yn y blynyddoedd diwethaf, ond trist fu gweld dirywiad yr ail dimau. Heb y timau yma sut y gellir datblygu'r 'feithrinfa' rhwng y llu clybiau ieuencid a'r cynghreiriau hyn?

Ymddengys, oherwydd y gost, na welwn ddychwelyd ail dimau Llanberis a Deiniolen i'r gynghrair, er fod tîm pur llwyddiannus dan 17 yn Neiniolen. Beth am un o'r pentrefi eraill felly?

Un o'r pentrefi hynny â phoblogaeth ieuanc yw Bethel. Bu cyfundrefn ieuencid llwyddiannus iawn yma am sawl tymor. Yna fel meibion afradlon fe â'r llu o chwaraewyr addawol y pentref i chwarae i dimau lleol eraill. Bu tîm

le, mae rhywbeth yn arbennig yn y gemau hyn mewn unrhyw gamp. Yr edrych ymlaen, y 'gaddo', yr herian ac yna'r clochdar wedi'r canlyniad. Ie, peth braf oedd sgôr gyfartal mewn gêm ddarbi. Chwaraeais mewn sawl un: Llanllechid v Besda; Llanbêr v Llanrug; Nantlle v Talysarn ac yna Bethesda v Bangor mewn gemau criced cystadleuol a swnllyd iawn. Erbyn hyn, un gêm ddarbi sydd ar ôl i mi – y Bedol yn erbyn Gors Bach yn y Cynghrair Dartiau.

Dipyn o gêm unochrog oedd y gêm yn y Gors Bach gyda'r Bedol yn ennill o 7-1. Yr oedd cryn edrych ymlaen felly am yr ail gêm yn y Bedol.

Sôn am addo! Pwy sydd ar gael? Pwy sy'n chwarae pwy? Mae Cleif wedi cyrraedd. Cymêr ydi Cleif, a'r ddawn arbennig ganddo i greu awyrgylch. I'r Gors mae Cleif yn chwarae erbyn hyn, er yn gyn-chwaraewr y Bedol.

Daeth nos Lun, hanner awr wedi wyth. I goroni'r achlysur roedd Gwilym Griffiths, Llywydd y Gynghrair yno. Siawns fod pawb am fyhafi! Sgersli bilif! Gêm on!

Mêt yn erbyn Geraint. Geraint yn cychwyn yn dda ac ar y dyblau yn gyflym. Mêt – trebl 6. Y ddau ar y tarw. Geraint yn llwyddo, 1-0 Gors. 'Blydi teachers', meddai Cleif. Marc (sy'n chwaraewr y Gors) yn erbyn Darren. Un ochrog oedd hon a Marc yn ennill. 1-1. 'Ffliwc,' meddai Cleif.

Yna gêm dda. Ruth Pritchard yn erbyn Stan. Ruth yn taflu'n wych ac yn ennill ar y tarw. 2-1 i'r Gors. 'Well played, darling,' meddai Cleif.

Yna Cleif yn erbyn Midge. Saer coed yn erbyn saer maen. Cleif yn

Y Gêm Ddarbi

oedi – gormod o swm! 'Un da yn siarad,' meddai'r dorf. Pethau'n poethi! Gêm dda arall ond Cleif yn ennill. 3-1 i'r Gors. 'Dim problem – peint,' meddai Cleif. Roedd tîm y Gors yn synhwyro buddugoliaeth, a Cleif yn eu procio.

R.O. yn erbyn Dyl Tom! Dyl yn chwarae'n stedi ond R.O. ar dân. 4-1 i'r Gors. 'Chwip din,' meddai Cleif yn gwybod fod beth bynnag un pwynt yn y gôd.

Kevin yn erbyn Dylan. Cleif erbyn hyn yn ei elfen, yn sylwebu a rhoi. Kevin – er yn herian – yn cadw'i ben. 4-2.

Gêm nesaf yn dyngedfennol. John Morgan – El Cid i'w ffrindiau – yn erbyn Kevin Spice. Dyma gêm a hanner. John yn dyrnu'r bwrdd ond Kevin yn taro'r dyblau. Cleif yn gweld 'gwlad yr addewid' ac yn sgrechian fel rhyw John Motson blewog! Kevin yn ennill. 5-2.

'Here we go,' meddai Cleif. I ble, wn i ddim! Y gêm olaf a Gerallt yn curo Marc a buddugoliaeth i'r Gors o 6-2. 'No problem, class will tell!' meddai Cleif. Ysgwyd llaw, herian a rhannu'r bwyd campus ar y diwedd. Y lle yn tawelu, yn gymharol, nes i rywun ddweud yn ddiniwed: '9-8 i'r Bedol felly!'

Gêm ddarbi go iawn rhwng hogia'r pentref. Pawb yn fets yn ôl. Dim ond gêm – sgersli bilif! Tan yr un nesaf.

Ar ran chwaraewyr dartiau lleol cymeraf y cyfle yma i ddiolch i Gwilym Griffiths am ei waith clodwiw fel Llywydd yn Gynghrair. A sôn am y rhwyg, gyda 'thimau dre' yn cyhoeddi U.D.I., gallwn ymfalchïo fod profiad a dawn Cwil ar ochr hogia'r wlad!



Tîm Gors Bach, ynghyd â Llywydd y Cynghrair, Mr Gwilym Griffiths, ar achlysur eu buddugoliaeth ddiweddar

hyn ym Methel am gyfnod yn yr 80'au ond collwyd y naws lleol a'r tueddiad oedd i lenwi'r tîm hefo 'hen stejars' o glybiau eraill.

Erbyn heddiw mae deunydd crai niferus i'w cael, a digon o arbenigedd i redeg tîm. Y bwgan mawr wrth gwrs yw cael cae addas. Dros y blynyddoedd bu cryn ddefnydd ar faes Ysgol Brynrefail a llogi maes oddi wrth ffermwr lleol. Yn ddios, o'i redeg yn iawn, mae clwb chwaraeon yn denu cymdeithas at ei gilydd. A oes digon o ddiddordeb ym Methel tybed i ailgydio yn y 'daten boeth' yma i ddarganfod cae, datblygu y cyfleusterau a chwblhau cylch

cyflawn o oed plant, drwy'r ieuencid ac yna i dîm hyn. Braff iawn fuasai clywed swm cicio pêl ym Methel unwaith eto ar bnawn Sadwrn. Beth amdani, criw Bethel?

Tlws yr Eco – 2001

Mae nifer wedi gofyn i mi a fydd yn cystadleuaeth Tlws yr Eco yn digwydd eleni. Wel, rwy'n gobeithio'n arw, os bydd effeithiau'r clwy wedi clirio fe wneir pob ymdrech i gynnal y noson llwyddiannus hon. Felly, ymlaen â'r trefnu – timau pêl-droed a phêl-rwyd, cofiwch.